



Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Adolygiad Sefydliadol (model hybrid)
gan yr Asiantaeth Sicrhau
Ansawdd Addysg Uwch

Mai 2014

Cynnwys

Yr adolygiad yma	1
Canfyddiadau allweddol	2
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Fetropolitan Caerdydd.....	2
Nodweddion o arfer da	2
Argymhellion.....	2
Ynghylch Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	3
Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Fetropolitan Caerdydd	4
1 Safonau academiaidd.....	4
Canlyniad.....	4
Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol	4
Defnydd o arholwyr allanol.....	4
Aseiad a safonau	5
Gosod a chynnal safonau rhaglenni	6
Meincnodau pwnc	7
2 Ansawdd cyfleoedd dysgu	7
Canlyniad.....	7
Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu.....	7
Adnoddau dysgu.....	8
Llais y myfyrwyr	9
Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau	10
Mynediad i'r Brifysgol	11
Cwynion ac apeliadau	12
Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd.....	13
Cefnogi myfyrwyr anabl.....	14
Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol	15
Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig	15
Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol.....	17
Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu.....	22
Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle	22
Siarter y myfyrwyr	23
3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu.....	23
Crynodeb	23
4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu	24
Canlyniad.....	24
Rhestr termau.....	26

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol (model hybrid) a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Cafwyd yr adolygiad rhwng 19 a 23 Mai 2014 ac fe'i weithredwyd gan dîm o bum adolygwr, fel a ganlyn:

- Yr Athro Paul Brunt
- Dr Sylvia Hargreaves
- Dr David Houlston
- Dr Carol Vielba
- Mrs Rebecca Freeman (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Miss Rachel Lucas (ysgrifenyddes yr adolygiad).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Yn yr adroddiad hwn, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - safonau academaidd trothwy¹
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu
 - yr wybodaeth a ddarperir am gyfleoedd dysgu
 - gwelliant i gyfleoedd dysgu
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da.

Gallwch weld crynodeb o'r [canfyddiadau allweddol](#) yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 5.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.² Mae gwybodaeth gefndir am Brifysgol Fetropolitan Caerdydd i'w chael ar dudalennau 3 i 4 yr adroddiad hwn. Mae tudalen benodol ar y wefan yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Sefydliadol](#) o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill.

¹ I gael esboniad o'r termau gwelwch y [rhestr termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

² www.qaa.ac.uk/aboutus/pages/default.aspx

³ www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/ir-wales.aspx

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Fetropolitan Caerdydd

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

- Mae'r safonau academaidd yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

- Gwaith yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu i ddarparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd ac adnoddau er mwyn gwella dysgu ac addysgu (paragraff 2.2.1).
- Ymgysylltiad Undeb y Myfyrwyr gyda myfyrwyr mewn partneriaethau cydweithredol i wella ansawdd y gynrychiolaeth (paragraff 2.3.1).
- Y gwrthrych dysgu ar-lein 'Eich Gyrfa', sy'n cyflenwi cyngor gyrfaoedd ac offer dysgu hyblyg ar gyfer modiwlau datblygu gyrfa (paragraff 2.7.3).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr argymhellion dilynol i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Erbyn mis Ionawr 2015:

- sicrhau bod polisiâu ac arweiniad ar adborth ffurfiannol o asesiadau'n cynnwys triniaeth gyfartal o fersiynau drafft o aseiniadau gwaith cwrs ymhob darpariaeth a addysgir (paragraff 1.3.3)
- adolygu a gwneud yn eglur y gweithdrefnau cwyno ar gyfer darpariaeth gydweithredol erbyn mis Ionawr 2015 ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n gyson ac yn gywir i fyfyrwyr (paragraff 2.6.5).

Erbyn mis Mawrth 2015:

- defnyddio dull cyson ledled y Brifysgol o hyfforddi, cefnogi a monitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud gwaith addysgu ac asesu (paragraff 2.10.8).

Parhaus:

- sicrhau bod yr holl drefniadau cydweithredol a threfniadau trosglwyddo'n derbyn sylw mewn cytundebau rhyng-sefydliadol a gyflawnwyd, a lofnodwyd ac sy'n gyfredol (paragraff 2.11.6)
- sicrhau eglurder ei dogfennaeth ffurfiol mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo (paragraff 2.11.15).

Gallwch weld esboniad pellach o'r canfyddiadau allweddol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr sydd ar gael ar wefan ASA, yn esbonio'r broses [Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru](#).⁴

⁴ www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/ir-wales.aspx

Ynghylch Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Sefydlwyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (y Brifysgol) yn 1976 pan gyfunwyd pedwar coleg i ffurfio Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg, ac yn ddiweddarach Athrofa Addysg Uwch Caerdydd. Daeth yn Sefydliad Cyswllt i Brifysgol Cymru yn 1992, ac yn aelod llawn yn 1996, ac erbyn hynny roedd yn Goleg Prifysgol dan y teitl Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC). Yn 2004, daeth UWIC yn Sefydliad Cyfansoddol o Brifysgol Cymru.

Derbyniodd UWIC bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn 1993, a graddau ymchwil yn 2009. Fodd bynnag, fel sefydliad achrededig o Brifysgol Cymru, daliodd ei phwerau dyfarnu graddau yn eu holau a derbyniodd yr holl raddedigion ddyfarniadau Prifysgol Cymru. Pan gyhoeddodd Brifysgol Cymru strategaeth academaidd newydd yn 2011, dechreuodd UWIC ddefnyddio ei phwerau dyfarnu graddau ei hun a newidiodd ei henw i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd. Ar amser yr adolygiad hwn, mae oddeutu 400 o fyfyrwr yn dal i fod wedi'u cofrestru ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Cymru.

Cenhadaeth y Brifysgol yw darparu cyfleoedd dysgu a hyfforddi sy'n 'hygyrch, yn hyblyg, yn gynhwysol, yn rhai gydol oes ac o'r safon uchaf'. Mae wedi'i hymrwymo i gryfhau'r system addysg uwch yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'n bwriadu datblygu ei henw da ym myd ymchwil a menter drwy ddatblygu 'canolfannau rhagoriaeth sefydledig a newydd ym maes addysg broffesiynol, ymchwil gymwysedig a throsglwyddo gwybodaeth'. Mae'n cynnig rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig sy'n broffesiynol a galwedigaethol berthnasol ac ystod o weithgareddau ymchwil cymhwysol. Yn ei huchelgais i ddod 'yn y 10 uchaf o brifysgolion ôl-1992', mae wedi canolbwyntio sylw arbennig ar gyflogadwyedd myfyrwr, ar hybu lleoliadau gwaith a/neu waith gwirfoddol, ac ar ddatblygu cysylltiadau gyda chyflogwyr a chyrrff proffesiynol.

Mae gan y Brifysgol oddeutu 17,000 o fyfyrwr mewn pum ysgol academaidd a 19 o sefydliadau partner cydweithredol. Mae 59 y cant o'i myfyrwr yn fyfyrwr israddedig, mae 38 y cant ar raglenni ôl-raddedig a addysgir, ac mae tri y cant yn astudio ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig. Mae'r rhan fwyaf o'i myfyrwr (88 y cant) yn llawn amser, ac mae 10 y cant o'i myfyrwr sy'n astudio yng Nghaerdydd o dramor.

Mae gan y Brifysgol bum ysgol: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Ysgol Addysg Caerdydd, Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd, Ysgol Reoli Caerdydd, ac Ysgol Chwaraeon Caerdydd. Yn 2013-14, mae'r ysgolion hyn wedi eu lleadaenu dros dri champws, ond o 2014-15 ymlaen bydd y Brifysgol wedi cyfuno ei darpariaeth ar ddau gampws yng Nghaerdydd: Cyncoed a Llandaf.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeriad addysgol, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol, ac mae'r Bwrdd Academaidd yn goruchwyllo ansawdd a safonau ei darpariaeth academaidd. Mae gan yr Is-Ganghellor gyfrifoldeb am reoli'r Brifysgol, wedi'i gefnogi gan Fwrdd yr Is-Ganghellor, sy'n cynnwys y Dirprwy i'r Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr Profiad Myfyrwr, pedwar Dirprwy Is-Ganghellor a'r Prif Swyddog Gweithredu.

Ers 2008, mae'r Brifysgol wedi gweld tyfiant a reolwyd yn ofalus yn ei myfyrwr darpariaeth gydweithredol, o 816 o fyfyrwr yn 2008 i 4,337 ym mis Ionawr 2013. Mae ganddi 19 o sefydliadau partner, wyth yn y DU (y mae gan un ohonynt bedwar campws cangen tramor) ac 11 o bartneriaid tramor. Mae'r mwyafrif o'i darpariaeth gydweithredol wedi'i chysylltu ag Ysgol Reoli Caerdydd. Nod y Brifysgol yw datblygu ei hystod o bartneriaethau cydweithredol yng Nghymru a thramor i uchafswm yn y pen draw o 20 partneriaeth weithredol, gadarn a gwydn, a chynyddu nifer y myfyrwr mewn addysg drawswladol i 6,200 erbyn diwedd y cyfnod cynllunio 2012-17.

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Fetropolitan Caerdydd

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy manwl.⁵

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau llawnach](#)⁶ ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.⁷

1 Safonau academiaidd

Canlyniad

Mae'r safonau academiaidd yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy. Mae rhesymau'r tîm adolygu am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol

1.1 Mae gan y Brifysgol systemau ar waith i sicrhau fod pob cymhwyster wedi'i alinio'n briodol â'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), a chanfu'r tîm adolygu eu bod yn gweithio'n effeithiol. Mae *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCCChC) hefyd yn hysbysu'r broses o gynllunio rhaglenni. Mae'r Llawlyfr Academiaidd yn darparu arweiniad ar gynllunio rhaglenni, ac mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn helpu timau rhaglen i sicrhau bod y rhaglenni'n alinio â'r FHEQ a bod maint digonol o astudio i fyfyrwyr allu dangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglenni.

1.1.1 Wrth gymeradwyo rhaglenni (gwelwch hefyd baragraff 1.4.1), mae panelau dilysu'n ceisio cadarnhad o gyfatebiaeth â'r FHEQ a maint yr astudio drwy graffu ar fanyleb y rhaglen a thempledi'r modiwlau yn rhan o'r broses gymeradwyo. Mae'r hyfforddiant i gadeiryddion panel dilysu, aelodau panel ac aelodau sy'n fyfyrwyr, yn cynnwys cyfeiriad at y FHEQ fel un o ofyniadau cymeradwyaeth. Mae templed adroddiad dilysu'r Brifysgol yn gofyn i'r panel gadarnhau bod y rhaglen a gynigir wedi'i alinio â'r FHEQ. Mae'r dasg o barhau'r aliniad gyda'r FHEQ ym mhob rhaglen, yn y Brifysgol ac mewn partneriaethau cydweithredol, yn cael ei monitro gan arholwyr allanol, a'i hadfywio bob pum mlynedd wrth adolygu'n gyfnodol.

Defnydd o arholwyr allanol

1.2 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol, ac mae ganddi brosesau cadarn i ystyried ac ymateb i'w hadroddiadau. Mae gan bob rhaglen o leiaf un arholwr. Mae'r broses o enwebu, penodi ac ymsefydlu arholwyr yn dilyn gweithdrefnau sydd wedi eu nodi yn y Llawlyfr Academiaidd. Mae'r Deon Ansawdd a Safonau, a phanel penodi arholwyr gyda chyfansoddiad priodol, yn goruchwyllo'r gweithdrefnau hyn, sydd wedi eu hadolygu'n ddiweddar i alinio'n llawnach gyda *Phennod B7: Arholi allanol yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU* (y Cod Ansawdd).

1.2.1 Mae'r Llawlyfr Academiaidd a'r broses ymsefydlu'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i arholwyr am eu rôl, lefel eu hawdurdod, ac am adroddiadau. Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddatblygu templedi adroddiadau arholwyr i sicrhau bod adroddiadau'n effeithiol. Mae adroddiadau arholwyr yn cael eu dosbarthu i staff y rhaglen ac i gynrychiolwyr myfyrwyr ac

⁵ Ni chyhoeddir y corff llawn o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad. Ond mae ar gael os gofynnwch amdano i'w ymchwilio. Cysylltwch â Grŵp Sicrhau Ansawdd ASA os gwelwch yn dda.

⁶ www.qaa.ac.uk/pages/glossarycy.aspx

⁷ Gwelwch nodyn 4.

yn cael eu trafod ar bwyllgorau rhaglen. Rhoddir ymateb ffurfiol i'r adroddiad, gan nodi pa gamau gweithredu a gymerwyd, gan ddefnyddio templed adborth, y mae'n rhaid iddo gael ei gadarnhau gan y pwyllgor rhaglen perthnasol a'r Dirprwy Ddeon / Deon Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) perthnasol cyn iddo gael ei anfon at yr arholwr.

1.2.2 Mae adroddiadau arholwyr allanol yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer cynllunio camau gweithredu ym mhroses adolygu rhaglenni flynyddol y Brifysgol. Ystyrir yr adolygiadau hyn gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r ysgolion perthnasol lle mae Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn crynhoi materion allweddol a godir gan arholwyr. Mae'r crynodebau hyn yn cael eu cyflwyno hefyd i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu, ac mae gan yr olaf is-grŵp sy'n pennu themâu gwelliant. Mae'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn paratoi trosolwg blynyddol o bryderon arholwyr allanol mewn darpariaeth gydweithredol ac yn ei gyflwyno i'r un pwyllgorau ac i'r Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol. Mae'r Deon Ansawdd a Safonau'n cynhyrchu adroddiad trosfwaol yn ymwneud â holl ddarpariaeth y Brifysgol, ac mae'r Bwrdd Academaidd a phwyllgorau allweddol yn cyflwyno a thrafod hwn.

1.2.3 Canfu'r tîm adolygu bod y strwythurau pwyllgorau wedi eu dogfennu'n dda ac yn gweithio fel y dylent. Mae'r ysgolion yn rhoi ymatebion priodol i arholwyr allanol ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae prosesau arholi allanol wedi eu deall yn llawn ac yn eang ac yn darparu ffocws priodol ar gyfer sicrhau ansawdd drwy'r Brifysgol gyfan.

1.2.4 Hysbysir y myfyrwyr am adroddiadau arholwyr drwy gynrychiolwyr eu cyrsiau, sy'n derbyn yr holl ddogfennau perthnasol ar gyfer adolygiadau blynyddol. Mewn partneriaethau cydweithredol, gall myfyrwyr weld adroddiadau arholwyr drwy rhith-amgylcheddau dysgu eu sefydliadau. Efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried darparu mynediad o'r fath i'r holl fyfyrwyr wrth iddi ddatblygu ei rhith-amgylchedd dysgu newydd.

Asesiad a safonau

1.3 Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu strategaethau asesu'n sicrhau bod cyfleoedd gan fyfyrwyr i ddangos canlyniadau dysgu'r dyfarniad. Disgrifir strategaethau asesu mewn manylebau rhaglen, llawlyfrau rhaglen a chanllawiau modiwl; cânt eu hysbysu gan Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu'r Brifysgol; y Polisi Asesu ac Adborth; Canllawiau Asesu'r Ysgolion; a'r Llawlyfr Academaidd.

1.3.1 Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yr ysgolion yn cefnogi timau rhaglen i ddatblygu strategaethau asesu drwy brosesau cynllunio a chymeradwyo rhaglenni (gwelwch hefyd baragraff 1.4.1). Cesglir canlyniadau dysgu'r modiwlau a'r rhaglenni'n fapiau asesu, i sicrhau bod y strategaethau asesu cyffredinol yn ymdrin â nhw. Mae panelau cymeradwyo rhaglenni'n craffu ar y strategaethau asesu a gynigir.

1.3.2 Bob blwyddyn, mae'r cyfarwyddwyr rhaglen yn sicrhau bod asesiadau a ddatblygwyd gan arweinwyr modiwlau'n cwrdd â'r gofynion cymeradwy, yn gytbwys, ac wedi eu hamserlennu'n briodol. Cyfathrebir y tasgau asesu i fyfyrwyr drwy lawlyfrau ac ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae gan y Brifysgol ffurflen enghreifftiol ar gyfer rhoi adborth o asesiadau, er y bydd angen datblygu taflenni adborth pwrpasol efallai ar gyfer tasgau penodol. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu'n fodlon gyda'r wybodaeth am asesiad a roddwyd iddynt, ac roeddent yn cadarnhau eu bod wedi derbyn adborth amserol a defnyddiol o asesiadau.

1.3.3 Canfu'r tîm adolygu bod y myfyrwyr yn derbyn adborth ffurfiannol o asesiadau, ond mae'r arferion ar gyfer gwneud hyn yn amrywio'n sylweddol mewn darpariaeth partneriaeth gydweithredol. Weithiau gall y myfyrwyr sy'n cyflwyno fersiynau drafft o aseiniadau gwaith cwrs i'w tiwtoriaid wneud hynny nifer o weithiau, ond mewn achosion eraill dim ond un cyfle a gânt i wneud hyn, a does dim cyfle o gwbl gan eraill ar sail unigol. Dywedwyd wrth y tîm

bod y Brifysgol yn datblygu arweiniad ar arferion da mewn perthynas ag adborth ffurfiannol o asesiadau. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau, erbyn mis Ionawr 2015, bod polisiau ac arweiniad ar adborth ffurfiannol o asesiadau'n cynnwys triniaeth gyfartal o fersiynau drafft o aseiniadau gwaith cwrs ymhob darpariaeth a addysgir.

1.3.4 Mae strategaethau a thasgau asesu'n cael eu monitro a'u gwerthuso yn rhan o'r broses adolygu rhaglenni flynyddol, a hysbysir gan adborth yr arholwyr. Mae adolygiadau cyfnodol yn caniatáu gwerthusiad dyfnach a mwy myfyriol o ba mor ddilys a chyfredol yw'r asesiadau. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cynnig ystod o gyfleoedd datblygiad staff mewn materion asesu.

Gosod a chynnal safonau rhaglenni

1.4 Y Bwrdd Academiaidd yn y pendraw sydd â'r awdurdod am safonau academiaidd a'r cyfrifoldeb amdanynt. Mae gan y Brifysgol brosesau priodol ar gyfer cynllunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni; mae manylion y rhain yn y Llawlyfr Academiaidd a chânt eu goruchwyllo gan yr Uned Ansawdd a Safonau a Bwrdd Academiaidd y Brifysgol a'i bwyllgorau (gwelwch hefyd baragraff 1.2.2). Mae gan bob pwyllgor gylch gwaith priodol, ac maent yn gweithredu eu hawdurdod yn berthnasol er mwyn cynnal a sicrhau safonau. Mae adroddiadau a chofnodion cymeradwyo'n dangos bod y prosesau'n gweithio'n effeithiol a chânt eu hadrodd i'r Bwrdd Academiaidd drwy ei bwyllgorau.

1.4.1 Mae gan y Brifysgol broses ddilyniannol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni sy'n cynnwys cymeradwyo cychwynnol, dilysu ac adrodd i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd. Mae staff uwch, yn cynnwys y Dirprwy i'r Is-Ganghellor, yn cadeirio digwyddiadau cymeradwyo, ac mae pob panel yn cynnwys academyddion mewnol, academyddion allanol a phobl broffesiynol o'r diwydiant lle bo'n briodol. Mae myfyrwyr yn aelodau llawn o banelau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni ar y campws a, lle bo'n bosibl, raglenni cydweithredol. Mae aelodau panel cymeradwyo, gan gynnwys myfyrwyr, yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer eu rolau. Defnyddir yr un prosesau ar gyfer darpariaeth gydweithredol mewn modelau etholfreinio a modelau dilysu rhaglenni, ac mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu), a safonwyr neu diwtoriaid cyswllt (gwelwch hefyd baragraffau 2.11.17 i 2.11.18) yn darparu cefnogaeth, yn enwedig i dimau rhaglen sy'n datblygu rhaglenni wedi'u dilysu. Cymeradwyr y cyrsiau byr sy'n rhan o 'riant' raglen gyda'r rhaglen honno, ond lle rhoddir credyd am gwrs byr sy'n sefyll ar ei ben ei hun, neu am gwrs byr sydd wedi ei alinio gyda 'rhiant' raglen ar ôl y pwynt dilysu, ystyrir hyn gan y Pwyllgor Credydau, sy'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd.

1.4.2 Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer adolygu rhaglenni'n gyfnodol neu bob blwyddyn yn ganolog i gynnal safonau academiaidd y rhaglen. Mae Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r ysgolion yn dadansoddi adolygiadau rhaglenni blynyddol ac adroddiadau arholwyr ac yn pennu cryfderau a materion sydd angen sylw gan dimau rhaglen a phwyllgorau ysgol, ac mae eu hadroddiadau'n cyrraedd y Bwrdd Academiaidd yn y pen draw. Mae rhaglenni unigol neu glystyrau o raglenni'n cael adolygiad cyfnodol mwy estynedig ar gyfnodau o bum mlynedd, i sicrhau bod rhaglenni'n parhau'n berthnasol a dilys. Mewn darpariaeth gydweithredol, mae rhaglenni wedi'u hetholfreinio'n cael eu hadolygu fel arfer ochr yn ochr â'r rhaglen 'gartref', tra bo'r adolygiad ar gyfer rhaglenni wedi'u dilysu'n cyfateb fel arfer gyda'r broses adolygu partner.

1.4.3 Mae'r Llawlyfr Academiaidd yn rhoi manylion cynhwysfawr y polisiau a'r arferion ar gyfer cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth i ddangos bod yr holl brosesau hyn yn gweithio fel a nodir yn y Llawlyfr Academiaidd, ac yn cael eu deall yn dda gan y rheiny sy'n cymryd rhan.

1.4.4 Mae'r broses drosglwyddo sy'n rhan o'r tynnu allan o Brifysgol Cymru wedi ei rheoli'n ofalus gan y Brifysgol. Mae'r safonau priodol wedi eu sicrhau ar gyfer y lleiafrif o'r myfyrwyr a fydd yn cwblhau gyda dyfarniadau Prifysgol Cymru.

Meincnodau pwnc

1.5 Mae'r Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatganiadau meincnod pwnc a chymhwyster, ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio yn ei phrosesau cynllunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni i hysbysu'r broses o osod safonau academiaidd. Mae'r Llawlyfr Academiaidd yn rhoi manylion y cyfeiriadau y dylid eu gwneud at y datganiadau meincnod pwnc wrth gynllunio rhaglenni, ac mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn darparu unrhyw gyngor angenrheidiol i dimau rhaglen.

1.5.1 Mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n gofyn cynhyrchu manyleb rhaglen, sy'n cofnodi'r datganiad meincnod pwnc perthnasol ac unrhyw fframiau cyfeirio allanol perthnasol eraill, megis gofynion cyrff proffesiynol. Rhaid i fodiwlau gael eu mapio at ddatganiadau meincnod pwnc i ddangos aliniad priodol. Mae panelau dilysu'n craffu ar y mapio yma, ac mae templed yr adroddiad dilysu'n gofyn i'r panel gadarnhau bod datganiadau meincnod pwnc wedi cael eu hystyried yn briodol. Mae'r broses adolygu rhaglenni flynyddol yn gofyn i dimau rhaglen gadarnhau bod y rhaglenni'n parhau i gael eu halinio â datganiadau meincnod pwnc cyfredol. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth bod yr holl brosesau hyn yn gweithio'n effeithiol.

2 Ansawdd cyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU. Mae rhesymau'r tîm adolygu am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu

2.1 Mae'r Brifysgol yn cefnogi'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu. Mae ei Chynllun Strategol 2012-17 yn ymrwymo'r sefydliad i ehangu safonau proffesiynol ac ysgoloriaethau, ac mae wedi gosod targedau ar gyfer sicrhau cydnabyddiaeth gan yr Academi Addysg Uwch (AAU) a nifer y staff sydd â graddau ymchwil. Yn ganolog i gyflawni'r amcanion hyn mae Strategaeth Adnoddau Dynol y Brifysgol, ei chynlluniau ysgol, a gwaith yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu.

2.1.1 Mae dethol staff academiaidd yn cynnwys, lle bo'n briodol, ofyniad am gymwysterau a phrofiad proffesiynol perthnasol. Mae gofyn i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ddysgu drwy roi cyflwyniad. Gall y panelau penodi nodi gofyniad i ennill cydnabyddiaeth gan yr AAU neu gymhwyster pellach fel rhan o'r cynigiad swydd. Mae gofyn i staff sydd heb gymhwyster addysgu ffurfiol, neu sydd heb ddigon o brofiad addysgu mewn addysg uwch, wneud Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch y Brifysgol. Mae aelodau newydd o staff yn cael eu hymsefydlu ar lefel y Brifysgol a'r ysgolion, a darperir sesiynau mentora. Yn ystod y cyfnod prawf, arsylwir addysgu gan uwch aelod o staff. Cafodd y Cynllun Arsylwi a Datblygu gan Gymheiriaid ar gyfer arsylwi ar addysgu ei adnewyddu a'i ail lansio'n ddiweddar er mwyn cynyddu ymgysylltiad y staff, a fydd yn cael ei fonitro drwy'r cynllun adolygu perfformiad staff blynyddol diwygiedig.

2.1.2 Mae proses ffurfiol ar gyfer penodi staff i rolau megis cyfarwyddwyr rhaglen neu diwtoriaid cyswllt partner; hyfforddir y rhai sy'n cael eu penodi o'r newydd ar gyfer y rolau yma a, lle bo'n bosibl, byddent yn cysgodi'r rhai sydd mewn swydd yn barod. Mae hyfforddiant ar gael hefyd, rhywfaint ohono'n orfodol, ar gyfer dyletswyddau penodol megis goruchwylio gwaith ymchwil ac i'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn asesu dysgu seiliedig ar waith. Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth i ddiweddarau gwybodaeth y staff am arferion cyfredol y Brifysgol, ac i hwyluso newid megis symud y rhith-amgylchedd dysgu i lwyfan newydd. Mae llwythi gwaith yn cael eu haddasu i hyrwyddo datblygiad staff, er enghraifft y rheiny sy'n gwneud graddau uwch, neu sy'n gwneud gwaith ymchwil. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n darparu

rhaglen helaeth o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad i staff (gwelwch hefyd baragraffau 2.1.4 a 2.2.1). Mae cynllun datblygiad proffesiynol parhaus yr Uned wedi ei fapio at Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU i hyrwyddo dyfarnu cymrodoriaeth yr AAU i staff sy'n addysgu neu'n cefnogi dysgu. Bu'r staff a gyfarfu â'r tîm adolygu'n siarad yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a'r cyfleoedd datblygiad staff sydd ar gael iddynt.

2.1.3 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cymeradwyo strategaeth ymchwil newydd, sy'n cynnwys ymroddiad i waith ymchwil sy'n cyfrannu at ddatblygu a darparu rhaglenni dysgu perthnasol o safon uchel. I hyrwyddo integreiddio ymchwil ac addysgu, mae'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu a'r Bwrdd Ymchwil a Menter yn cyfarfod bob blwyddyn, ac mae'r cyfarfod yma'n cael ei ailadrodd ar lefel ysgol. Rhoddir ystyriaeth i addysgu a arweinir gan ymchwil wrth ddilysu rhaglen a rhoddir sylwadau am hyn mewn adolygiad rhaglenni blynyddol. Mae cefnogaeth ar gael i staff wella eu proffil ymchwil drwy astudio ar gyfer graddau ymchwil uwch a mynd i gynadleddau.

2.1.4 Mae'r Brifysgol yn cymeradwyo'r holl staff sy'n addysgu yn ei darpariaeth gydweithredol, i ddechrau wrth ddilysu rhaglen ac wedi hynny fel y bo'n ofynnol. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd datblygiad i staff partner: er enghraifft, yng Nghaerdydd, cynhelir digwyddiad hyfforddi blynyddol i bartneriaid, a chynhelir modiwlau newydd i gefnogi dysgu ac addysgu ar wefan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a fydd yn helpu staff partner i wneud cais am gymrodoriaeth yr AAU. Mae tiwtoriaid cyswllt a safonwyr yn darparu cyfleoedd datblygiad staff mewn sefydliadau partner, yn arbennig mewn perthynas ag addysgu ac asesu. Mae'r Brifysgol yn datblygu cynllun lle mae ei staff uwch yn arsylwi'r addysgu mewn sefydliadau partner. Bu'r staff mewn sefydliadau partner a gyfarfu â'r tîm adolygu'n siarad yn gadarnhaol am y cyfleoedd datblygiad staff a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Brifysgol.

Adnoddau dysgu

2.2 Mae adnoddau dysgu'r Brifysgol yn briodol i ganiatáu i fyfyrwyr gyflawni canlyniadau dysgu eu rhaglenni. Mae ganddi strategaethau, polisiau a gweithdrefnau i sicrhau bod staff yn gallu darparu strategaeth dysgu ac addysgu'r Brifysgol a'i rhaglenni dysgu (gwelwch hefyd baragraffau 2.1 i 2.1.4). Mae gan y Brifysgol achrediad 'Buddsoddwyr mewn Pobl'. Mae adolygiad perfformiad wedi'i ymgorffori mewn trefniadau prawf i staff newydd ac yn y broses adolygu perfformiad staff blynyddol, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i gysylltu'n agosach â Fframwaith Safonau Proffesiynol yr AAU. Mae systemau rheoli allweddol eraill, megis y model dyrannu llwyth gwaith, a curricula vitae staff safonol, wedi cael eu hadolygu er mwyn rheoli a monitro perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Strategol.

2.2.1 Mae staff yn cadarnhau bod y Brifysgol yn darparu rhaglen helaeth o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad (gwelwch hefyd baragraff 2.1.2). Pennir anghenion datblygiad y staff yn ganolog gan ddefnyddio gwybodaeth o'r adolygiad o berfformiad staff, adborth gan fyfyrwyr, a phrosesau sicrhau ansawdd. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n darparu cyfleoedd datblygiad staff drwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, e-ddysgu, a hyfforddi. Yn ogystal â'i hadnoddau o ansawdd da ar y we, mae'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad staff unigol i adrannau a grwpiau mewn meysydd megis dysgu cyfunol a dysgu gyda chymorth technoleg (gwelwch hefyd baragraff 2.12.1). Mae gwaith yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu i ddarparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd ac adnoddau er mwyn gwella dysgu ac addysgu yn **arfer da**.

2.2.2 Rhoddir ystyriaeth i ofnion y rhaglenni am adnoddau dysgu wrth ddilysu ac yn y broses adolygu rhaglenni flynyddol a'r adolygiad cyfnodol. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn rhesymoli a moderneiddio ei ystâd ar ddau brif gampws. Mae'r tîm Adnoddau Dysgu ac Addysgu'n cysylltu â'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, yr ysgolion, yr Adran Ystadau a'r Gwasanaeth Anabledd i sicrhau bod adeiladau addysgu'n addas i'r pwrpas, yn gallu hwyluso ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu, ac mor hygyrch ag sy'n bosibl.

2.2.3 Mae'r Porth Dysgu'n darparu mynediad electronig at wybodaeth ac adnoddau, yn cynnwys y llyfrgell, technoleg gwybodaeth, a datblygiad sgiliau academiaidd. Mae'r mynediad corfforol i'r cyfleusterau llyfrgell a TG drwy dair canolfan ddysgu, un ar bob campws. Gellir cyrraedd gwasanaethau electronig yn eang drwy dechnoleg ddiwifr a symudol. Mae'r rhith-amgylchedd dysgu'n cael ei uwchraddio drwy symudiad at lwyfan newydd. Mae'r Brifysgol yn darparu amrediad eang o hyfforddiant a chefnogaeth i staff a myfyrwyr i'w helpu i ddefnyddio ei hadnoddau dysgu amrywiol. Defnyddir adborth gan fyfyrwyr i helpu i gynllunio adnoddau newydd a gwella'r gwasanaethau presennol.

2.2.4 Asesir adnoddau dysgu i fyfyrwyr mewn darpariaeth gydweithredol ar y safle pan gânt eu cymeradwyo'n gyntaf. Cedwir llygad arnynt mewn ymweliadau gan diwtoriaid cyswllt a safonwyr, a chânt eu hadolygu'n ffurfiol wrth wneud adolygiadau cyfnodol. Gall myfyrwyr ar ddarpariaeth gydweithredol ddefnyddio adnoddau dysgu'r Brifysgol, ac mae cefnogaeth ychwanegol ar waith ar gyfer hynny. Mae modiwl ar-lein i gefnogi sgiliau astudio Saesneg wedi cael ei ddatblygu i fyfyrwyr sydd mewn partneriaethau cydweithredol.

2.2.5 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol yn nodi ei strategaeth ar gyfer cyfathrebu allanol a datblygu a chefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg, ac hefyd ar gyfer creu canolfannau rhagoriaeth yn y cyswllt hwn. Mae Uned Gymraeg i'w chael, ac mae gan bob ysgol gydlynedd iaith Gymraeg, ac mae niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn dewis astudio modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cyflwyniad y myfyrwyr yn nodi bod prinder llyfrau Cymraeg mewn rhai meysydd yn y llyfrgelloedd, ond mynegodd y staff farn bod hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r prinder defnyddiau a gynhyrchir yn y Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n hybu addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ysgoloriaethau myfyrwyr, prosiectau a ariennir a darparu adnoddau dysgu ac addysgu. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu adnoddau cyfrwng Cymraeg, er enghraifft drwy gyfieithu gwerslyfrau allweddol.

2.2.6 Cyfarfu'r tîm adolygu â myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau graddau a addysgir a graddau ymchwil ar gampws cartref y Brifysgol ac mewn sefydliadau partner. Dangosodd y myfyrwyr bod y staff oedd yn eu dysgu nhw'n broffesiynol ac yn llawn gwybodaeth. Mae'r adnoddau dysgu a ddarperir yn cwrdd â'u gofynion ac maent yn derbyn cefnogaeth briodol ar gyfer eu defnyddio nhw. Rhoddodd y myfyrwyr ymchwil sylwadau positif am y lle a roddir iddynt i weithio a'r offer a meddalwedd arbenigol sydd ar gael iddynt.

Llais y myfyrwyr

2.3 Mae'r Brifysgol yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys myfyrwyr yn y broses o sicrhau a gwella ansawdd eu profiadau. Mae perthynas waith agos rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac maent yn canolbwyntio ar y cyd ar wella profiad y myfyrwyr. Mae swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr yn gweithio'n agos â'r uwch dîm rheoli ac yn mynd i bwyllgorau penderfynu allweddol y sefydliad. Mae cynrychiolaeth y myfyrwyr yn gryf ac wedi ei chefnogi'n dda ar lefel sefydliadol. Mae system gynhwysfawr o gynrychiolaeth myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn ei lle ar lefelau rhaglen, adran ac ysgol, ac mae cysylltiadau cryf gydag Undeb y Myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant i'r holl gynrychiolwyr, a darperir rhagor o wybodaeth am eu rôl ar wefan Undeb y Myfyrwyr ac mewn llawlyfrau rhaglen. Cynrychiolir myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy'r Pwyllgor Academyddion Cyswllt, y mae ei gadeirydd sy'n fyfyrwr (a/neu enwebai) yn aelod o bwyllgorau ymchwil sefydliadol. Mae'r myfyrwyr yn amlwg yn deall yr haenau a'r sianelau yma o gynrychiolaeth ac maent yn cadarnhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol. Mae'r cynrychiolwyr yn teimlo eu bod wedi eu paratoi'n dda ar gyfer eu rolau.

2.3.1 Mae'r trefniadau hyn ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr wedi eu hailadrodd mewn sefydliadau partner cydweithredol. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn cael cyfleoedd hefyd i gwrdd â thiworiaid cyswllt a chynrychiolwyr eraill y Brifysgol sy'n ymweld â sefydliadau partner, ac yr ymgynghorir â nhw yn ystod adolygiadau cyfnodol. Mae swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr wedi bod ar nifer o ymweliadau â sefydliadau partner rhyngwladol yn 2012 a 2013

i wella cysylltiadau. Yn 2013, arweiniodd at ddigwyddiad hyfforddi yn y Brifysgol i gynrychiolwyr myfyrwyr o bartneriaethau cydweithredol. Daeth myfyrwyr o amrywiaeth o sefydliadau partner yn y DU a thramor a chawsent eu hannog i hyfforddi cynrychiolwyr eraill yn eu lleoliadau eu hunain. Cadarnhaodd y myfyrwyr hynny a ddaeth i'r digwyddiad hwn ei fod wedi cryfhau eu dealltwriaeth o rôl cynrychiolwyr myfyrwyr, a'u cysylltiadau gyda'r Brifysgol. Mae ymgysylltiad Undeb y Myfyrwyr gyda myfyrwyr mewn partneriaethau cydweithredol i wella ansawdd y gynrychiolaeth, yn **arfer da**.

2.3.2 Mae cyfle i'r myfyrwyr roi adborth ar yr holl fodiwlau a rhaglenni, ar y campws ac mewn partneriaethau, drwy arolygon holiaduron a chysylltiadau anffurfiol gyda staff. Maent yn dysgu am ymatebion i'w hadborth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys postio cofnodion pwyllgorau, taflenni newyddion a thrwy eu cynrychiolwyr myfyrwyr. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm yn teimlo bod y Brifysgol yn ymatebol i adborth ac yn gwerthfawrogi eu barn.

2.3.3 Mae myfyrwyr yn aelodau llawn o'r panelau ar gyfer dilysu ac adolygu rhaglenni ar y campws a, lle bo'n bosibl, ar gyfer rhaglenni cydweithredol. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn cydweithredu wrth hyfforddi cronfa o adolygwyr sy'n fyfyrwyr ar ddechrau bob blwyddyn academaidd. Cadarnhaodd staff a myfyrwyr sy'n aelodau o banelau adolygu bod cyfraniad y myfyrwyr yn cael ei werthfawrogi a dywedodd yr adolygwyr sy'n fyfyrwyr eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y rôl.

2.3.4 Mae tystiolaeth amlwg i ddangos bod y Brifysgol yn defnyddio canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) i wneud gwelliannau gyda phroses wedi'i diffinio'n fanwl ar gyfer ystyried canlyniadau'r AMC, ac ar gyfer cynllunio camau gweithredu ar lefel y rhaglen a'r sefydliad. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau'r Brifysgol ar gyfer cynllunio camau gweithredu ar gyfer yr AMC, a thrafodir data'r AMC gyda chynrychiolwyr myfyrwyr ac yn rhan o'r broses adolygu rhaglenni flynyddol.

2.3.5 Mae Undeb y Myfyrwyr yn gwerthuso'r system gynrychiolaeth bob blwyddyn ac yn cyflwyno gwelliannau i'r system yn rheolaidd. Mae'n adrodd y gwerthusiad blynyddol i'r Brifysgol fel bod modd monitro a datblygu'r system ar y cyd.

Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau

2.4 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth rheoli i sicrhau ansawdd a safonau ac i hybu gwelliant i gyfleoedd dysgu'r myfyrwyr. Mae ei Strategaeth Gwybodaeth yn ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonedd systemau gwybodaeth, ac mae wedi buddsoddi mewn system cofnodion myfyrwyr newydd. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod data'n parhau'n ddarniog ar draws y Brifysgol ac mae wedi cychwyn ar brosiectau i integreiddio systemau. Mae system gwybodaeth busnes yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae gwelliannau sydd ar waith yn cynnwys integreiddio cofnodion myfyrwyr ymchwil i'r System Myfyrwyr, hwyluso adrodd ar draws yr ysgol, a phrynu meddalwedd newydd i gadw data am leoliadau gwaith a gyrfaoedd (gwelwch hefyd baragraff 2.13.2).

2.4.1 Defnyddir gwybodaeth a gynhyrchir yn fewnol ac yn allanol mewn ffordd effeithiol wrth wneud penderfyniadau. Defnyddir data'r AMC yn eang i siapio gwelliannau i brofiad y myfyrwyr (gwelwch hefyd baragraff 2.3.4). Defnyddir yr arolwg blynyddol o Gyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch i hysbysu gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau myfyrwyr eraill. Mae system newydd ar gyfer storio data am anabledau a ddatgelir yn integreiddio data ar draws y sefydliad a chaiff ei defnyddio i ganfod yr anghenion am drefniadau arbennig ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu. Defnyddir data o'r system cofnodion myfyrwyr i hysbysu'r broses adolygu rhaglenni flynyddol am recriwtiad, cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr ar yr holl raglenni, yn cynnwys darpariaeth gydweithredol. Roedd adolygiad diweddar o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd yn y broses adolygu rhaglenni flynyddol yn argymhell ail alinio'r ystadegau a ddefnyddir yn yr adroddiadau hyn gyda'r rheiny a ddefnyddir gan y Grŵp Datblygu Portffolio canolog i fonitro metrigau allweddol yn ymwneud â pherfformiad rhaglenni.

2.4.2 Mae dangosyddion perfformiad allweddol y Brifysgol yn darparu fframwaith ar gyfer monitro perfformiad yr ysgolion a'r gwasanaethau, ac adroddir am y rhain i'r Bwrdd Llywodraethwyr bob blwyddyn. Mae'r broses adrodd hon yn ystyried risgiau, ac mae hefyd yn meincnodi perfformiad y Brifysgol yn erbyn cymaryddion Cymru gyfan, rhanbarthol ac enw da. Mae'r Brifysgol yn casglu data am ei holl ddarpariaeth ar y campws cartref a'i darpariaeth gydweithredol fel bod modd cymharu perfformiad myfyrwyr ar raglenni tebyg mewn gwahanol leoliadau ar lefelau sefydliadol ac ysgolion.

Mynediad i'r Brifysgol

2.5 Mae polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol a ddefnyddir i dderbyn myfyrwyr yn glir, teg, eglur ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Cyhoeddir y polisi derbyn ar y wefan ac mae'n berthnasol i'r holl geisiadau ar gyfer yr holl ddarpariaeth, gan gynnwys rhaglenni a gynigir mewn sefydliadau partner. Mae gwahanol grwpiau o staff yn gwneud gweithdrefnau derbyn yn dibynnu ar gefndir yr ymgeisydd a'r rhaglen yr ymgeisir amdani. Mae'r Uned Derbyniadau ganolog yn gyfrifol am dderbyn yr holl fyfyrwyr o'r DU a myfyrwyr eraill o'r Undeb Ewropeaidd i raglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil; mae'r Swyddfa Ryngwladol yn gyfrifol am dderbyn myfyrwyr rhyngwladol; ac mae'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn goruchwylio derbyniadau i ddarpariaeth y Brifysgol mewn sefydliadau partner. Cytunir ar y gofynion mynediad wrth gymeradwyo rhaglenni a chânt eu hadolygu yn ystod yr adolygiad cyfnodol. Cânt eu diffinio mewn manylebau rhaglenni, a chyhoeddir manylion y rhain mewn prospectysau ac ar y wefan. Mae'r Brifysgol yn credu bod eglurder ei gofynion derbyn myfyrwyr yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud gan yr amrywiol dimau sy'n gyfrifol am dderbyniadau.

2.5.1 Disgrifir gweithdrefnau derbyn yn y Llawlyfr Academaidd a'r Llawlyfr Darpariaeth Gydweithredol, y mae'r ddau ar gael yn electronaidd. Mae'r Porth i Staff yn cynnwys arweiniad ac adnoddau eang i staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn. Darperir digwyddiadau briffio a hyfforddi i staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn, gan gynnwys y rheiny mewn sefydliadau partner. Cyfwelir ymgeiswyr am raddau ymchwil gan yr adran berthnasol sy'n cynghori a ddylid rhoi lle i'r ymgeisydd ai peidio. Gwneir addasiadau i agweddau perthnasol o'r broses dderbyn, megis cyfweiliadau, ar gyfer myfyrwyr sydd wedi nodi anabledd. Mae'r Porth i Staff yn cynnwys arweiniad ac adnoddau eang i staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn.

2.5.2 Efallai y gellir datganoli rhywfaint o'r gwaith o wneud penderfyniadau am dderbyniadau lle, er enghraifft, maent efallai'n dibynnu ar gyfweiliadau neu brofion a wneir yn lleol. Lle mae penderfyniadau wedi eu datganoli, cânt eu gwneud gan gyfarwyddwyr rhaglen a thiwtoriadaid a'u hanfon ymlaen i'r Uned Derbyniadau ganolog. Mewn darpariaeth gydweithredol, mae maint y datganoli mewn perthynas â derbyniadau'n dibynnu ar leoliad a statws y partner. Gallai sefydliadau partner cydweithredol fod yn gyfrifol am farchnata, am gasglu ceisiadau, am wirio cymwysterau a rhannu ceisiadau gyda'r Brifysgol. Mae safonwyr a thiwtoriadaid cyswllt yn gyfrifol am wirio bod prosesau derbyn y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn. Y Brifysgol sy'n derbyn yr holl fyfyrwyr ymchwil i sefydliadau partner er y gellir cynnal cyfweiliadau'n lleol. Mae'r staff mewn sefydliadau partner a gyfarfu â'r tîm adolygu'n gwybod yn glir beth yw eu cyfrifoldebau o fewn y broses dderbyn.

2.5.3 Mae'r cyfarwyddwyr rhaglen yn penderfynu, ar sail unigol, a ddylid derbyn myfyrwyr gyda chredydau a safle uwch drwy achredu dysgu blaenorol, gan gynnwys dysgu profiadol blaenorol, y tu allan i drefniadau trosglwyddo (gwelwch hefyd baragraffau 2.11.14 i 2.11.16), ac mae'r cyfarwyddwyr yn dilyn yr arweiniad yn y Llawlyfr Academaidd ac yn rheoliadau asesu'r Brifysgol. Mae deunyddiau marchnata a dogfennaeth rhaglenni'n dangos bod y trefniadau derbyn hyn ar gael.

2.5.4 Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo recriwtiad drwy ddiwrnodau agored a gweithgareddau allgymorth, ac mae'n rhoi gwybodaeth eang ar y wefan. Mae tudalennau gwe ar wahân yn

rhoi gwybodaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n gwneud cais i sefydliadau partner. Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael yn y Gymraeg. Mae'r myfyrwyr yn cadarnhau eu bod wedi derbyn gwybodaeth gywir a defnyddiol cyn ymuno â'u rhaglenni a'u bod yn ystyried y broses dderbyn yn un deg ac effeithiol. Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio asiantiaid, yn arbennig i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Mae'n cadw cofrestr o asiantiaid cydnabyddedig ac yn eu monitro'n agos i sicrhau fod y Brifysgol yn cael ei chynrychioli'n briodol a bod darpar fyfyrwyr yn cael eu trin yn deg. Gall ymgeiswyr aflwyddiannus geisio adborth gan Uned Derbyniadau'r Brifysgol, a gallet ofyn am adolygiad o benderfyniad ynglŷn â derbyniadau. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu eu bod wedi derbyn gwybodaeth gywir a defnyddiol cyn ymuno â'u rhaglenni a'u bod yn ystyried y broses dderbyn yn deg ac effeithiol.

2.5.5 Mae myfyrwyr, sy'n cael cynnig lle ac yn eu derbyn, yn derbyn gwybodaeth fanwl am gofrestriad a beth i'w ddisgwyl ar eu dewis raglen. Maent oll yn mynd i weithgareddau croeso ac ymsefydlu, a dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu bod y digwyddiadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol i wneud y trosglwyddiad i astudio yn y Brifysgol.

2.5.6 Mae'r Brifysgol yn monitro, yn adolygu ac yn diwygio ei gofynion, ei gweithdrefnau a'i pherfformiad mewn perthynas â derbyniadau'n rheolaidd. Ystyrir data derbyn a recriwtiad bob blwyddyn drwy'r broses adolygu rhaglenni flynyddol. Holir myfyrwyr newydd am eu profiad o'r broses dderbyn, ac mae eu hymatebion yn bwydo i mewn i adroddiad blynyddol ar Weithgareddau Recriwtio Myfyrwyr sy'n cynnig gwelliannau lle bo angen.

Cwynion ac apeliadau

2.6 Mae gan y Brifysgol bolisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i fyfyrwyr apelio neu gwyno. Cânt eu cymeradwyo gan y Bwrdd Academiaidd a'u nodi yn y Llawlyfr Academiaidd ac ar y wefan, a chânt eu crynhoi yn y Llawlyfr Myfyrwyr. Mae prosesau apelio'n berthnasol i holl ddarpariaeth y Brifysgol, ar ei champysau ei hun ac mewn partneriaethau, ac maent yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau byrddau arholi ac arholwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r gweithdrefnau cwyno'n gweithredu'n wahanol mewn darpariaeth ar ei champws a darpariaeth gydweithredol. Mae cyngor i apelyddion ar gael gan Undeb y Myfyrwyr, gan y Gofrestrfa, a (i apelyddion sydd wedi datgan anabledd) gan y Gwasanaeth Anabledd.

2.6.1 Nododd cyflwyniad y myfyrwyr bod llawer o fyfyrwyr sydd ddim yn ymwybodol o weithdrefnau apelio a chwyno neu sut i gael gafael arnynt. Roedd rhywfaint o wybodaeth a ddarparwyd i fyfyrwyr heb ei ddiweddarau hefyd. Daethpwyd â hyn i sylw'r Brifysgol, ac mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn cymryd camau i ymdrin â'r mater. Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu eu bod yn ymwybodol o'r prosesau ar gyfer apeliadau a chwynion ac maent yn gwybod o ble i gael rhagor o fanylion os bydd yr angen yn codi.

2.6.2 Mae'r Cofrestrydd Cynorthwyol (Rheoliadau ac Ymchwil) yn adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd Academiaidd am yr apeliadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn academiaidd flaenorol, ac mae'n cynnig gwelliannau gweithredol. Mae gwelliannau diweddar wedi cynnwys cynhyrchu taflen ar amgylchiadau lliniarol er mwyn gostwng y nifer o apeliadau anghymwys. Hysbyswyd y tîm adolygu y bydd adroddiadau yn y dyfodol yn gwahaniaethu rhwng apeliadau gan fyfyrwyr ar y 'campws cartref' a'r rheiny mewn darpariaeth gydweithredol, fel bod modd gwneud cymariaethau.

2.6.3 Mae polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cwynion gan fyfyrwyr ar y campws cartref yn cychwyn gyda cham anffurfiol ac yn parhau os oes raid i broses ffurfiol a reolir gan Swyddog Cwynion y Gofrestrfa sy'n gweithio'n agos â Deon y Myfyrwyr. Darperir hyfforddiant i'r staff perthnasol. Gofynnir i'r achwynwyr am adborth ar y broses i helpu gyda gwelliant. Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gofrestrfa'n adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd Academiaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr ar gwynion gan fyfyrwyr. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i'w gweithredu. Mae'n cynnwys cwynion gan fyfyrwyr ar y campws cartref ac ar

ddarpariaeth gydweithredol, ond yn yr achos olaf mae'n adrodd am y cwynion a dderbyniwyd gan y Brifysgol yn unig, nid y cwynion hynny a dderbyniwyd gan sefydliadau partner yn unig. Mae nifer y cwynion i'r Brifysgol gan fyfyrwyr ar ddarpariaeth gydweithredol wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf gan arwain at adolygiad gan y Gofrestrfa a chamau gweithredu adferol i ymdrin â'r materion a bennwyd.

2.6.4 Mewn darpariaeth gydweithredol mae ymdrin â chwynion yn y lle cyntaf yn cael ei ddirprwyo i sefydliadau partner. Canfu'r Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru a wnaed gan ASA yn 2013 ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd dystiolaeth o'r dryswch ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai rheoliadau'r Brifysgol neu reoliadau'r partner fod yn berthnasol wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau, ac argymhellodd bod angen cael ateb eglur i hyn. Mewn ymateb i hynny, mae Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol y Brifysgol wedi cynhyrchu canllaw i fyfyrwyr mewn darpariaeth gydweithredol sy'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau a chwynion. O ran cwynion, mae'r canllaw hwn yn nodi y dylai myfyriwr, unwaith mae prosesau anffurfiol wedi eu cyflawni, ddilyn gweithdrefnau ffurfiol y partner, a dylai manylion amdanynt fod ar gael mewn llawlyfrau rhaglen. Dim ond ar ôl i'r prosesau hyn gael eu cwblhau y gall y myfyriwr gwyno i'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn rhoi paragraff safonol i bartneriaid ei gosod mewn llawlyfrau rhaglen i fyfyrwyr yn ymwneud â chwynion, a lle i roi manylion gweithdrefnau lleol. Fodd bynnag, nid oedd esiamplau o lawlyfrau a welwyd gan y tîm adolygu'n cynnwys gwybodaeth briodol am weithdrefnau lleol, ac roedd yn rhoi cyngor dryslyd i fyfyrwyr. Nid oedd y diffyg eglurder yma fel petai wedi ei weld gan diwtoriaid cyswllt a safonwyr wrth wirio llawlyfrau rhaglenni.

2.6.5 Mae'r Llawlyfr Academaidd yn nodi nad yw'n broses syml canfod sut y dylid symud cwynion yn eu blaen mewn darpariaeth gydweithredol. Mae'n nodi y bydd y Brifysgol yn ceisio ymyrryd yn y broses o ymdrin â chwynion sydd ag agwedd academaidd neu lle mae honiad bod y partner wedi gweithredu'n amhriodol. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y tîm adolygu hefyd nad oes gofyn i bartneriaid adrodd am yr holl gwynion a wneir drwy eu mecanweithiau mewnol, felly nid yw'n glir sut byddai'r Brifysgol yn gwybod a ddylai ymyrryd. Mae hefyd yn aneglur sut mae gweithdrefnau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion yn cael eu craffu, eu cymeradwyo a'u monitro. Mae'r tîm yn **argymhell** bod y Brifysgol yn adolygu ac yn gwneud yn eglur y gweithdrefnau cwyno ar gyfer darpariaeth gydweithredol erbyn mis Ionawr 2015 ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n gyson ac yn gywir i fyfyrwyr.

Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd

2.7 Mae ansawdd agwedd y Brifysgol tuag at addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wedi ei sicrhau'n ddigonol. Mae cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wedi eu cynnwys yn Strategaeth Cyflogadwyedd y Brifysgol, sy'n ganolog i genhadaeth y Brifysgol. (Trafodir materion eraill sy'n ymwneud â'r Strategaeth Cyflogadwyedd ym mharagraffau 2.13 i 2.13.3.) Mae'r Strategaeth Cyflogadwyedd a'r cynllun gweithredu wedi'u mapio yn erbyn *Pennod B10: Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill* y Cod Ansawdd i sicrhau bod ei disgwyliad ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau gwaith tramor yn cael ei chyflawni, a'i bod yn nodi'r arferion cyfredol a'r amcanion ar gyfer gyrfaoedd a chyflogadwyedd. Mae'r pwyllgorau allweddol yn defnyddio'r adroddiadau gan y Gwasanaethau Datblygu Gyrfaoedd i fonitro cyfranogaeth a chyrchfannau graddedigion.

2.7.1 Darperir rhaglen gynhwysfawr o gymorth gyrfaoedd i fyfyrwyr ar y campws drwy apwyntiadau un i un, gweithdai a sesiynau galw heibio. Mae'r Gwasanaethau Datblygu Gyrfaoedd hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o gyflogwyr i ddarparu ffeiriau gyrfaoedd, gweithdai a chyflwyniadau, ac maent yn cysylltu cyflogwyr perthnasol gyda chysylltiadau mewn ysgolion i annog cyflogwyr i gynnig lleoliadau gwaith a sesiynau blasu gwaith. Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhedeg siop swyddi ac yn dod ag ymgynghorwyr allanol i mewn i'r Brifysgol i redeg sesiynau cyflogadwyedd a sesiynau hyfforddi pwrpasol. Mae'r myfyrwyr o'r farn bod y cyngor a'r chyfarwyddyd gyrfaoedd o safon uchel.

2.7.2 Mae'r Gwasanaethau Datblygu Gyrfaedd a'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n helpu timau rhaglen i gynnwys cyflogadwyedd a nodweddion graddedig yn y cwricwlwm, a darperir gweithdai i staff fel rhan o'r Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (gwelwch hefyd baragraff 2.13.3).

2.7.3 Mae'r gwrthrych dysgu ar-lein 'Eich Gyrfa' yn darparu adnoddau gyrfaol rhyngweithiol y mae myfyrwyr yn eu gwneud yn eu hamser eu hunain, neu yn rhan o fodiwl â chredyd, er mwyn paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Gall yr holl fyfyrwyr gael gafael ar yr adnodd yma, gan gynnwys y rheiny sy'n anabl, yn rhan amser neu mewn darpariaeth gydweithredol. Mae myfyrwyr wedi ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd: er enghraifft, mewn un ganolfan bartneriaeth ryngwladol roedd yn cefnogi sesiynau datblygiad personol wyneb yn wyneb. Mae modiwlau gyrfaol dysgu cyfunol, sydd ar gael mewn rhai rhaglenni ar y campws, yn cael eu cefnogi gan fersiynau wedi'u teilwra o 'Eich Gyrfa'. Mae'r gwrthrych dysgu ar-lein 'Eich Gyrfa', sy'n cyflenwi cyngor gyrfaoedd ac offer dysgu hyblyg ar gyfer modiwlau datblygu gyrfa, yn **arfer da**.

Cefnogi myfyrwyr anabl

2.8 Mae'r Brifysgol yn rheoli cyfleoedd dysgu'n briodol i gwrdd ag anghenion myfyrwyr anabl, ac mae'n cynnal ymrwymiad strategol i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr ar gael ar wefan y Gwasanaethau Anabledd ac yn ystod diwrnodau agored. Anogir darpar fyfyrwyr i gysylltu â'r Gwasanaeth Anabledd mor gynnar ag sy'n bosibl yn ystod y broses ymgeisio, ac anfonir nodau atgoffa at y rheiny sydd wedi datgelu anableddau ar eu ffurflenni UCAS i'w hannog i drafod eu hanghenion cyn cyrraedd. Rhoddir gwybodaeth i fyfyrwyr cyfredol yn y Llawlyfr Myfyrwyr ac ar Borth y Myfyrwyr, ac amlygir Gwasanaethau Anabledd yn ystod y cyfnod ymsefydlu i'r holl fyfyrwyr. Ymdrinnir â gofynion Addas i Weithio yn ôl yr achos unigol.

2.8.1 Mae amrywiaeth eang o gefnogaeth ar gael i fyfyrwyr anabl unwaith y maent wedi cyrraedd y Brifysgol. Mae Gwasanaethau Anabledd, mewn cydweithrediad ag ysgolion a gwasanaethau myfyrwyr eraill, yn annog myfyrwyr yn rhagweithiol i ddatgelu anableddau os nad ydynt wedi gwneud hynny cyn cofrestru. Maent yn darparu asesiadau anabledd o fewn y safle a chefnogaeth berthnasol i'r unigolyn sydd wedi'i seilio ar anghenion y myfyriwr unigol, drwy gynghorwyr hyfforddedig a sesiynau sgiliau astudio. Mae myfyrwyr yn dweud bod myfyrwyr anabl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, ac maent yn nodi'r ymdrechion a wneir gan y Brifysgol a'r corff myfyrwyr i hybu agweddau cynhwysol tuag at fyfyrwyr gydag anableddau.

2.8.2 Ystyrir perfformiad myfyrwyr anabl bob blwyddyn ar lefel y rhaglen a chynllunnir camau gweithredu ar gyfer unrhyw welliant angenrheidiol. Mae tueddiadau a welir mewn adolygiadau rhaglenni blynyddol yn bwydo i mewn i'r adroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac yn cael eu derbyn gan y Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Bwrdd Graddau Ymchwil yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n anabl.

2.8.3 Darperir hyfforddiant am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth gan y Gwasanaethau Anabledd i'r holl staff wrth ymsefydlu, yn y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch, a thrwy weithdai a chyngor ar-lein mewn cysylltiad â'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu. Bydd modiwl Rheoli Cysylltiadau Cwsmer Anabledd, sy'n cael ei redeg yn arbrofol ar hyn o bryd, yn rhoi mynediad i'r staff at wybodaeth fel eu bod yn gallu cefnogi anghenion penodol myfyrwyr. Mae Gwasanaethau Anabledd yn gweithio gyda thimau rhaglen i gynghori am addasiadau rhesymol i ddysgu, addysgu ac asesu, a chaiff y rhain eu monitro drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda myfyrwyr a staff. Mae gweithwyr Cymorth Dysgu'n rhoi cefnogaeth unigol i fyfyrwyr cymwys. Mae staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth pwrpasol mewn achosion mwy cymhleth.

2.8.4 Mae'r Adran Ystadau'n sicrhau bod yr holl adnewyddiadau ac adeiladau newydd yn hygyrch; mae'n ystyried amrywiaeth y defnyddwyr ac yn gwneud gwelliannau rheolaidd i'r adeiladau presennol. Mae'r gwrthrych dysgu 'Eich Gyrfa' (gwelwch hefyd baragraff 2.7.3) yn rhoi cyfle i fyfyrwyr anabl ddefnyddio modiwl gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain. Mae'r

Gwasanaeth Datblygu Gyrfa a'r Gwasanaethau Anabledd yn cydweithio i gefnogi myfyrwyr anabl gyda phenodiadau gyrfaal ar draws y campysau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ar gael.

Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol

2.9 Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr rhyngwladol yn briodol. Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn darparu cefnogaeth benodol i fyfyrwyr rhyngwladol gan gynnwys cyngor ynglŷn â mewnfudo a lles, ymsefydlu, a chynefino. Mae gwybodaeth fanwl i fyfyrwyr rhyngwladol am yr holl faterion yma, ac am sgiliau astudio, ar gael ar y wefan ac yn y Llawlyfr Myfyrwyr; mae'n glir ac yn osgoi iaith dechnegol.

2.9.1 Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn goruchwyllo derbyniadau myfyrwyr rhyngwladol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r gofynion ar gyfer myfyrwyr eraill, a'u bod yn cynnwys gofynion ychwanegol y Swyddfa Gartref. Mae'n cynnig gwasanaeth croeso, nôl o'r maes awyr a gwasanaeth bwcio llety. Mae cynghorwr rhyngwladol a gwirfoddolwyr hyfforddedig o blith y myfyrwyr yn cwrdd â'r myfyrwyr yn y maes awyr. Mae penwythnos ymsefydlu'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys gofal iechyd ac agor cyfrifon banc. Cynigir cefnogaeth barhaus drwy weithdai sgiliau astudio, ac mae cymorth iaith Saesneg ar gael drwy gydol rhaglenni astudio'r myfyrwyr.

2.9.2 Mae'r ymsefydliad corfforaethol i'r holl staff newydd yn cynnwys hyfforddiant am ryngwladoli, ac mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cynnig hyfforddiant ychwanegol opsiynol i staff academiaidd.

2.9.3 Mae'r Brifysgol yn rhedeg y Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol bob blwyddyn i sicrhau adborth gan fyfyrwyr rhyngwladol, ac mae hwn yn canfod arferion da a pha feysydd sydd i gael eu datblygu yn y dyfodol. Mae'r adroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cynnwys adroddiad ar waith y Swyddfa Ryngwladol a chanlyniadau'r Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol.

Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

2.10 Mae'r Brifysgol yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad priodol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar lefelau sefydliad ac ysgolion. Mae'n credu bod y rhyngweithio proffesiynol y mae myfyrwyr yn ei ddatblygu gyda'u Cyfarwyddwyr Astudiaethau'n nodweddiadol hynod amlwg o'r gefnogaeth a'r arweiniad yma.

2.10.1 Mae'r Pwyllgor Datblygu Ymchwil yn goruchwyllo safonau ac ansawdd y rhaglenni ymchwil ôl-raddedig. Mae'n derbyn adroddiadau blynyddol ar Astudiaethau Graddedigion gan ysgolion a sefydliadau partner, ac mae'n adrodd i'r Bwrdd Ymchwil a Menter. Mae'r Brifysgol yn datblygu Strategaeth Ymchwil ddiwygiedig ar gyfer 2014-19 i alinio'n agosach gyda'r Cynllun Strategol Corfforaethol ac i adnewyddu pwyslais ar gryfhau amgylchedd ymchwil y Brifysgol.

2.10.2 Mae buddsoddiadau sylweddol wedi'u gwneud mewn datblygu a darparu cyfleusterau ac adnoddau ymchwil arbenigol ymhob un o'r ysgolion ac ar draws prif gampysau'r Brifysgol. Mae Canolfannau Ymchwil sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn darparu'r fframwaith ar gyfer seilwaith ymchwil y Brifysgol ochr yn ochr â chefnogaeth i gysylltiad strategol gyda phartneriaid addysg uwch a sefydliadau ymchwil allanol. Nododd yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig 2013 bod angen gwella'r amgylchedd ymchwil ôl-raddedig, ac mae hyn yn derbyn sylw drwy'r Strategaeth Ymchwil ddiwygiedig, drwy waith cysylltiedig o gynllunio camau gweithredu yn yr ysgolion, a thrwy hybu cydweithrediadau rhwng yr ysgolion, y cychwynnir rhai ohonynt drwy ryngweithio â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

2.10.3 Mae dulliau'r Brifysgol o dderbyn, cofrestru a throsglwyddo myfyrwyr o MPhil i PhD yn glir ac yn effeithiol. Ystyrir y ceisiadau gan Gydlynnydd Astudiaethau Graddedigion ym mhob ysgol, ac yn dilyn hynny gan Gyfarwyddwr Ymchwil ac Astudiaethau Graddedigion y Brifysgol. Unwaith y mae'r myfyriwr wedi'i dderbyn, caiff Cyfarwyddwr Astudiaethau ei bennu i arwain tîm goruchwyllo'r myfyriwr. Adlewyrchir y dull yma mewn sefydliadau partner er mwyn sicrhau cydraddoldeb mewn trefniadau graddau ymchwil. Gall rhai agweddau o'r broses derbyn ac ymsefydlu myfyrwyr, a phrofiadau dysgu'r myfyrwyr, amrywio ar lefel ysgol yn unol ag anghenion academaidd pob myfyriwr a'u rhaglenni. Mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn y Llawlyfr i Fyfyrrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, ac yn cyd-fynd â hwnnw mae arweiniad ar wefan y Gwasanaethau Ymchwil a Menter.

2.10.4 Mae'r Pwyllgor Datblygu Ymchwil yn cadw cofrestr o Gyfarwyddwyr Astudiaethau a goruchwylwyr ymchwil, ac mae canllawiau'r Brifysgol yn diffinio'r llwyth gwaith goruchwyllo. Mae gallu goruchwyllo yn y Brifysgol wedi cynyddu, ond mae argaeledd goruchwylwyr profiadol yn amrywio o ysgol i ysgol, a chyflogir goruchwylwyr allanol gyda chymwysterau da mewn sefydliad partner wrth i'w ymgysylltiad â graddau ymchwil ddatblygu. Darperir hyfforddiant a sesiynau mentora i bob goruchwyllydd. Mae gan y myfyrwyr ddealltwriaeth glir o'u hawliau o ran goruchwyliaeth ac o'r broses o drosglwyddo o MPhil i PhD. Mae cynnydd pob myfyriwr yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd goruchwyllo a thrwy gwblhau adroddiad monitro blynyddol; adolygir hyn ar lefel ysgol gan Gydlynnydd Astudiaethau Graddedigion, ac mae'r Pwyllgor Datblygu Ymchwil yn adrodd am y canlyniadau i'r Bwrdd Ymchwil a Menter.

2.10.5 Mae'r Pwyllgor Datblygu Ymchwil yn penodi arholwyr allanol, yn dilyn enwebiadau neu argymhellion gan Gyfarwyddwyr Astudiaethau a gan Gydlynwyr Astudiaethau Graddedigion ym mhob ysgol. Mae'r Gofrestrfa Academaidd yn cydlynu'r broses arholi.

2.10.6 Canfu'r tîm adolygu bod datblygiad sgiliau ymchwil a sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn amrywio o ysgol i ysgol ac nad yw'n gyson â'r broses sydd wedi ei disgrifio yn y Llawlyfr i Fyfyrrwyr Ymchwil Ôl-raddedig. Mae goruchwylwyr yn monitro datblygiad ac archwiliad sgiliau ymchwil ac yn gefn i hyn mae cyfleoedd i fyfyrrwyr ymgysylltu ag amrywiaeth o weithdai yn ystod Wythnos Sgiliau flynyddol i Fyfyrrwyr Ymchwil Ôl-raddedig. Mae'r Llawlyfr i Fyfyrrwyr Ymchwil Ôl-raddedig yn rhoi manylion rhaglen hyfforddiant ffurfiol a gorfodol am ddulliau ymchwilio ond nid yw hon ar gael yn systematig ar draws y Brifysgol.

2.10.7 Defnyddir sianelau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol i sicrhau bod llais cynrychiadol gan fyfyrrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae Academyddion Cyswllt a enwebir o bob ysgol yn darparu cynrychiolaeth briodol ac effeithiol drwy'r Pwyllgor Academyddion Cyswllt. Mae adroddiadau monitro blynyddol y myfyrrwyr (gwelwch hefyd baragraff 2.10.4) yn darparu mecanwaith mwy ffurfiol i roi adborth i Gyfarwyddwr Ymchwil ac Astudiaethau Graddedigion yr ysgolion a'r Brifysgol. Mae myfyrrwyr ymchwil ôl-raddedig yn mynegi lefel uchel o foddhad gyda'r adnoddau dysgu cyffredinol ac arbenigol sydd ar gael iddynt, a gyda'r cymorth academaidd a bugeiliol y maent wedi'i dderbyn. Mae lleoedd gweithio addas ar gael i fyfyrrwyr ymchwil llawn amser a rhan amser. Mae Symposiwm Ymchwil blynyddol yn gyfle i arddangos gwaith ymchwil ôl-raddedig, ac mae cyfle i fyfyrrwyr gyflwyno eu gwaith ymchwil i'w gyhoeddi yng nghylchgrawn ymchwil y Brifysgol.

2.10.8 Mae myfyrrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu ac asesu myfyrrwyr israddedig yn cael eu hyfforddi, eu cefnogi a'u monitro'n ansystematig ar lefel ysgol, drwy gysgodi a chael eu mentora gan staff academaidd yn bennaf. Does dim gofyniad gorfodol i fyfyrrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu gymryd y cyfleoedd hyfforddi a'r cymwysterau mwy ffurfiol sydd ar gael yn y Brifysgol. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol, erbyn mis Mawrth 2015, yn defnyddio dull cyson ledled y Brifysgol o hyfforddi, cefnogi a monitro myfyrrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud gwaith addysgu ac asesu.

Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol

2.11 Yn gyffredinol, mae ansawdd y cyfleoedd dysgu a ddarperir yn rhan o'r trefniadau cydweithredol wedi'i rheoli'n effeithiol i alluogi myfyrwyr i gyflawni eu dyfarniadau. Mae'r Brifysgol yn diffinio tri model o ddarpariaeth gydweithredol: rhaglenni wedi'u hetholfreinio (a ddilysir ar y cychwyn i'w darparu yn y Brifysgol ac a ddarperir yn ddiweddarach gan bartner); rhaglenni wedi'u dilysu (a ddatblygir gan bartner ac a gymeradwyir gan y Brifysgol); ac etholfraint allgymorth (rhaglenni wedi'u hetholfreinio a ddarperir yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan staff y Brifysgol). Mae trefniadau trosglwyddo wedi'u diffinio fel trefniadau lle gall fyfyrwyr sy'n cwblhau rhaglenni allanol symud ymlaen yn awtomatig i raglenni gradd y Brifysgol gyda safle uwch. Ar hyn o bryd, mae un o bartneriaid cydweithredol y Brifysgol wedi ei dynodi'n 'Goleg Cyswllt'. Mae'r Brifysgol yn cadw cofnodion, yn ôl math a chategori, o bob partneriaeth sy'n amodol ar gytundeb ffurfiol. Mae'r holl ddarpariaeth gydweithredol dramor yn cael eu dysgu a'i hasesu yn y Saesneg.

2.11.1 Mae'r Strategaeth Darpariaeth Gydweithredol yn nodi egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli partneriaethau, gan gynnwys goruchwyllo'n ganolog, defnyddio gweithdrefnau'r Brifysgol, a gwneud adolygiad rheolaidd o'u hymarferoldeb academaidd ac ariannol. Mae Is-Bwyllgor Addysg Drawswladol y Bwrdd Llywodraethwyr yn goruchwyllo risgiau sy'n gysylltiedig ag addysg drawswladol, ac mae'n adrodd i Bwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad y Bwrdd. Mae polisi'r Brifysgol ar ddarpariaeth gydweithredol yn disgrifio'r sail y mae'r Brifysgol yn ei ddefnyddio i greu trefniadau cydweithredol, gan gynnwys manteision i'r myfyrwyr a'r Brifysgol a sicrhau ansawdd a safonau. Mae'r polisi, ynghyd ag egwyddorion a gweithdrefnau cydweithredol, wedi ei gynnwys yn y Llawlyfr Academaidd. Mae'r Llawlyfr Darpariaeth Gydweithredol yn rhoi gwybodaeth allweddol i bartneriaid a staff y Brifysgol am reoli, monitro ac adolygu darpariaeth gydweithredol. Mae gwybodaeth ar-lein ddefnyddiol i staff partner ar gael ar wefan SharePoint y Brifysgol ar gyfer darpariaeth gydweithredol.

2.11.2 Mae'r Brifysgol yn ymdrin â chanlyniadau adroddiad Estyn 2013 ar Ganolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon, sy'n cynnwys elfen o ddarpariaeth yn y Brifysgol, ac mae'n gwneud cynnydd boddhaol tuag at gwblhau camau gweithredu oedd yn codi o argymhellion adroddiad ASA ar yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd (Chwefror 2013).

2.11.3 Mae gan y Brifysgol weithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer cymeradwyo partneriaid arfaethedig. Gwneir yr ymweliad fetio cychwynnol gan staff sydd wedi eu cymeradwyo i'r pwrpas hwn gan Fwrdd yr Is-Ganghellor. Ar gyfer cydweithrediadau sy'n cynnwys darpariaeth ar nifer o gampysau, rhaid i'r ymweliad cychwynnol, lle bo'n bosibl, gynnwys pob un o'r campysau. Gwneir gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac nid yw'r cynigion a ystyrir yn rhai risg uchel yn cael eu derbyn. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y gweithdrefnau hyn yn darparu digon o ddiogelwch yn erbyn amhriodoldeb ariannol neu wrthdaro buddiannau a allai gyfaddawdu safonau academaidd neu ansawdd y cyfleoedd dysgu.

2.11.4 Mae gan y Brifysgol amserlen ffurfiol o wiriadau diwydrwydd dyladwy cyfnodol ymhob un o'i phartneriaid cydweithredol tramor presennol, hyd 2016-17. Caiff matricesau risgiau ar gyfer pob partneriaeth eu diweddarau bob blwyddyn gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol, a chânt eu hystyried gan yr Is-Bwyllgor Addysg Drawswladol ac yn rhan o Adolygiad Partneriaeth Blynyddol. Creffir hefyd ar gerdyn sgorio risg cyffredinol ar gyfer yr holl bartneriaethau mewn Adolygiad Partneriaeth Blynyddol. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth i ddangos bod problemau'n cael eu canfod a'u trin drwy'r broses hon.

2.11.5 Mae'r Brifysgol wedi datblygu strategaeth ymadael sydd i gael ei defnyddio pan fydd partneriaeth yn dod i ben. Roedd tystiolaeth i ddangos bod hon yn cael ei gweithredu'n effeithiol a bod mesurau priodol ar waith i gynnal safonau ac ansawdd profiad y myfyrwyr.

2.11.6 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod Memorandwm Cytundeb Rhaglen a Memorandwm Cytundeb Cyllidol yn cael eu cwblhau ar gyfer bob rhaglen gydweithredol. Rhaid i'r cytundebau, sydd â thymor penodol, gael eu llofnodi gan yr Is-Ganghellor neu eu henwebai a gan bennaeth y sefydliad cydweithredol. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Cytundeb Cydweithredu trosfwaol ar gyfer pob partneriaeth sy'n llywio dehongliad a pherfformiad y cytundebau eraill. Mae'r Cytundeb Cydweithredu a'r Cytundeb Rhaglen yn datgan bod y Brifysgol yn gyfrifol am oruchwylio a chynnal safonau academiaidd a bod trefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol yn berthnasol; maent hefyd yn gwahardd etholfreinio cyfresol. Mae'r Cytundeb Cydweithredu'n ymwneud â newidiadau i fframweithiau rheoliadol, cymeradwyo deunyddiau a gyhoeddir gan bartneriaid, ac eiddo deallusol. Mae'r memorandwm rhaglen a'r memorandwm cyllidol yn rhoi manylion cyfrifoldebau'r partneriaid perthnasol, mewn darpariaethau clir a chynhwysfawr. Canfu'r tîm adolygu bod y Memorandwm Cytundeb Rhaglen yn ei le mewn un bartneriaeth tramor cyn i'r myfyrwyr gael eu cofrestru, ond nad oedd y Cytundeb Cydweithredu Academiaidd wedi ei gwblhau ar y cam hwnnw. Roedd dau gytundeb trosglwyddo, a welwyd gan y tîm adolygu, sy'n ymwneud â rhaglenni wedi'u trosglwyddo lle mae myfyrwyr wedi eu cofrestru ar hyn o bryd, heb gael eu llofnodi gan y sefydliad partner. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl drefniadau cydweithredol a threfniadau trosglwyddo'n derbyn sylw mewn cytundebau rhyng-sefydliadol a gyflawnwyd, a lofnodwyd ac sy'n gyfredol.

2.11.7 Mae'r Bwrdd Academiaidd yn goruchwylio ansawdd a safonau darpariaeth gydweithredol y Brifysgol, gan dderbyn adroddiadau a chofnodion gan y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd. Hysbysir yr olaf am yr ansawdd a'r safonau mewn darpariaeth gydweithredol drwy dderbyn adroddiadau a chofnodion gan y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol.

2.11.8 Mae prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu cyfnodol yn dilyn gweithdrefnau safonol y Brifysgol (gwelwch hefyd baragraffau 1.4 i 1.4.3), gyda rhai ychwanegiadau sy'n adlewyrchu natur benodol darpariaeth gydweithredol. Ar ôl fetio'r partner ar y cychwyn a'i gymeradwyo i fwrw ymlaen, y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd sy'n penderfynu ar union fformat digwyddiad cymeradwyo'r rhaglen, ar sail y drefn safonol. Mae panelau cymeradwyo'n cynnwys o leiaf un arbenigwr pwnc allanol. Mewn digwyddiadau tramor, rhaid bod y cadeiryddion panel ac o leiaf un aelod o'r panel wedi cael eu hyfforddi i'r pwrpas hwn. Rhaid gwneud ymweliadau â'r holl safleoedd darparu a gynigir. Mae'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd yn derbyn adroddiadau'r digwyddiadau i'w cymeradwyo. Canfu'r tîm adolygu bod y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo campysau ychwanegol arfaethedig y partneriaid presennol, sy'n cynnwys ymweliad gan y panel â phob campws o'r fath, hefyd yn effeithiol, ac mae prosesau cadarn ac effeithiol yn eu lle ar gyfer etholfreinio darpariaeth graddau ymchwil. Mae staff partner yn gwerthfawrogi'r lefel uchel o gefnogaeth a ddarperir gan y Brifysgol yn y cyfnod sy'n arwain at ddiwyddiadau cymeradwyo.

2.11.9 Caiff adolygiadau rhaglenni blynyddol eu craffu gan diwtoriaid cyswllt neu safonwyr, y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu cysylltiedig yr ysgolion. Ystyrir crynodebau o adolygiadau rhaglenni blynyddol (yn ôl yr ysgol), a throsolwg blynyddol (yn ôl y partner), gan y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu. Mae'r adroddiadau a chrynodebau'n ddadansoddol ac yn werthusol; maent yn nodi cryfderau allweddol ac arferion da, a materion i'w gwella. Maent hefyd yn cynnwys cynlluniau gweithredu, ond nid adroddiadau am gamau gweithredu a gwblhawyd neu sy'n dal i fod ar waith o'r flwyddyn flaenorol. Efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried sut y gellid cyflwyno'r agwedd yma o ddarparu adrodd cryno blynyddol. Mae trefniadau rheoli ansawdd ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn un o bartneriaid cydweithredol y Brifysgol (yr unig un sy'n darparu darpariaeth ar y lefel hon) yn dilyn y trefniadau ar gyfer myfyrwyr yn y Brifysgol (gwelwch hefyd baragraffau 2.10 i 2.10.8).

2.11.10 Mae'r broses Adolygiad Partneriaeth Blyneddol, dan arweiniad y Dirprwy i'r Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Rhyngwladol), yn ystyried safonau, ansawdd a materion ariannol ar gyfer pob sefydliad partner mewn perthynas â'r partneriaid unigol, ar draws cyfanrwydd y ddarpariaeth sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol. Mae'r broses adolygu hon yn gweithio'n effeithiol ac mae problemau sy'n codi'n cael eu monitro a'u trin.

2.11.11 Mae'r holl raglenni cydweithredol yn cael eu hadolygu'n gyfnodol bob pum mlynedd, gan ddilyn gweithdrefnau safonol y Brifysgol. Mae panelau, sy'n cynnwys un aelod academiaidd allanol, yn cwrdd â myfyrwyr, timau rhaglen a rheolwyr mewn sefydliadau partner. Gellir adolygu rhaglenni wedi'u hetholfreinio yn rhan o'r rhaglen yn y Brifysgol, drwy gyswllt fideo, neu ar eu pennau eu hunain drwy ymweliad. Canfu'r tîm adolygu bod y broses adolygu hon yn cael ei gweithredu'n gyffredinol yn unol â gofynion y Brifysgol, ar gyfer rhaglenni wedi'u hetholfreinio a rhaglenni wedi'u dilysu. Fodd bynnag, roedd adroddiad un digwyddiad adolygiad rhaglenni cyfnodol ar gyfer etholfraint tramor fel petai'n awgrymu bod y panel wedi cwrdd â myfyrwyr yn y Brifysgol ond heb gyfarfod â myfyrwyr ar gampysau tramor. Yng nghyd-destun ei hymrwymiad amlwg i ymgysylltu â myfyrwyr, efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried sut y gallai gynnwys myfyrwyr ar gampysau tramor fwy mewn adolygu rhaglenni'n gyfnodol.

2.11.12 Mae gweithdrefnau'r Brifysgol yn gofyn am wneud adolygiad sefydliadol o bartneriaethau, bob pum mlynedd fel arfer. Cynhelir gweithgaredd adolygu yn y sefydliad partner gan banel sy'n cynnwys un aelod allanol sydd â phrofiad o ddarpariaeth gydweithredol ac aelod hyfforddedig a phrofiadol o staff y Brifysgol nad yw wedi ymwneud â'r partner o'r blaen. Mae'r panel yn cwrdd â rheolwyr, staff a myfyrwyr ac yn craffu ar gyfresi safonol o ddogfennau'r partner a'r Brifysgol. Mae adroddiadau adolygu partneriaeth yn dangos bod prosesau'r Brifysgol yn cael eu dilyn a'u bod yn effeithiol. Mewn un achos, defnyddiwyd y broses i sicrhau bod monitro cadarn wedi digwydd o'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i bryderon am ansawdd a bennwyd mewn un sefydliad partner tramor. Mewn achos arall, er bod y panel yn teimlo ei fod yn gallu ystyried barn y myfyrwyr drwy adroddiadau gan diwtoriaid cyswllt a staff eraill oedd wedi ymweld â'r partner tramor hwn, nid oedd y panel yn cyfarfod â myfyrwyr ar gampysau tramor. Yma hefyd (gwelwch hefyd baragraff 2.11.11), efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried sut y gellid cynnwys myfyrwyr ar gampysau tramor yn fwy gweithredol mewn adolygiadau partneriaeth.

2.11.13 Mae gweithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon difrifol am ansawdd mewn sefydliad partner wedi bod ar waith ers 2012-13. Canfu'r tîm adolygu bod y weithdrefn hon wedi ei defnyddio unwaith, yn dilyn codi pryderon difrifol gan un o'r arholwyr allanol, a chafodd ei gweithredu'n effeithiol a gallai'r bartneriaeth barhau.

2.11.14 Cymeradwyir trefniadau trosglwyddo drwy ymweld â'r sefydliad allanol, a thrwy graffu ar ddogfennaeth rhaglenni i gadarnhau ei fod yn cyfateb â rhaglen 'darged' y Brifysgol. Mae gwaith craffu'n cynnwys mapio canlyniadau a chynnwys modiwl, prosesau a deunyddiau asesu, gofynion mynediad, trefnau sicrhau ansawdd a manylion am adnoddau. Gellir esgusodi'r gofyniad i ymweld os rhoddir cymhwyster targed, er enghraifft, gan gorff sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofqual. Os yw'r cais am drosglwyddo'n rhan o gynnig i ddilysu/etholfreinio, gallai'r broses drosglwyddo gael ei hymgorffori yn y broses ddilysu/etholfreinio. Rhaid cael cymeradwyaeth y Bwrdd Academiaidd o'r trefniant cyn cwblhau'r Memorandwm Trosglwyddo.

2.11.15 Nid yw'r dogfennau sy'n ymwneud â chymeradwyo rhaglenni wedi'u trosglwyddo a welwyd gan y tîm adolygu bob amser yn dangos bod craffu ar ddogfennau wedi ymdrin â'r holl faterion a nodwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol (gwelwch hefyd baragraff 2.11.14). Canfu'r tîm hefyd bod y broses gymeradwyo ar gyfer cynnydd myfyrwyr o ddau sefydliad addysg uwch tramor, a'r ddogfennaeth gymeradwyo, yn aneglur. Nid yw'n amlwg ar ba sail, os oedd sail o gwbl, yr oedd y Brifysgol wedi cymeradwyo trefniadau trosglwyddo ar gyfer rhaglenni penodol a gynigir gan y ddau sefydliad yma. Mae'n ymddangos bod adroddiad cymeradwyo ar gyfer darpariaeth wedi'i hetholfreinio a darpariaeth wedi'i throsglwyddo mewn

un o bartneriaid y Brifysgol wedi cynnwys trefniadau 'trosglwyddo' mewn perthynas â'r ddau sefydliad arall. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y tîm nad oes hawl gan y myfyrwyr sy'n cwblhau'r credydau perthnasol yn y ddau sefydliad dan sylw ddisgwyl symudiad awtomatig i raglen 'darged' y Brifysgol (fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl mewn trefniant trosglwyddo), ond ystyri'r ceisiadau yn ôl yr achos unigol. Dywedodd y Brifysgol hefyd nad oes ganddi gytundebau ysgrifenedig ffurfiol gyda'r ddau sefydliad dan sylw, ac nad oes unrhyw fyfyrwyr wedi symud ymlaen ar sail y trefniadau hyn sydd heb eu diffinio'n fanwl gywir. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn sicrhau eglurder ei dogfennaeth ffurfiol mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo.

2.11.16 Ar gyfer rhaglenni wedi'u trosglwyddo sy'n arwain at raglenni'r Brifysgol a ddarperir oddi ar y campws, mae partneriaid yn cyflwyno adroddiad hunanwerthusiad beirniadol blynyddol i'r Brifysgol, gan ddefnyddio templed safonol. Ar gyfer trefniadau trosglwyddo sy'n arwain at raglenni ar y campws, paratwir adroddiad mewn fformat tebyg gan gyfarwyddwr y rhaglen ar y campws ac mae'n cael ei ystyried yn y broses adolygu rhaglenni flynyddol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau hyn yn llawn gwybodaeth, yn ymdrin ag adroddiadau arholwyr allanol, data perfformiad myfyrwyr, ac adborth gan fyfyrwyr, a chânt eu hystyried gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r ysgolion.

2.11.17 Mae'r ysgolion yn gyfrifol, drwy eu safonwyr a'u tiwtoriaid cyswllt, am sicrhau safonau ac ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol. Mae Ysgol Reoli Caerdydd, sydd â darpariaeth gydweithredol eang, yn penodi prif ac is-diwor cyswllt i bob sefydliad partner rhyngwladol. Yn yr holl ddarpariaeth gydweithredol arall, penodir safonwr ar gyfer bob rhaglen unigol. Mae safonwyr a thiwtorïaïd cyswllt yn monitro safonau academaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu mewn rhaglenni cydweithredol ac yn rhoi adroddiadau i bwyllgorau perthnasol y Brifysgol. Maent hefyd yn cynghori a chefnogi staff partner mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys arsylwi addysgu gan gymheiriaid a helpu i ymsefydlu staff a myfyrwyr. Mae safonwyr a thiwtorïaïd cyswllt yn derbyn hyfforddiant ac yn rhannu gwybodaeth drwy fforwm sy'n cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn.

2.11.18 Mae safonwyr a thiwtorïaïd cyswllt yn ymweld â sefydliadau partner, ddwywaith y flwyddyn fel arfer, ac yn adrodd i'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol, i Ddeon eu Hysgol, ac i'r partner. Mae adroddiadau fel arfer yn cofnodi cyfarfodydd gyda staff uwch, staff y rhaglenni a myfyrwyr, ac maent yn cadarnhau bod gofynion y Brifysgol yn cael eu cyflawni. Canfu'r tîm adolygu hefyd bod curricula vitae'r aelodau newydd o staff yn cael eu gwirio yn ystod ymweliadau gan safonwyr a thiwtorïaïd cyswllt. Roedd staff partner yn disgrifio lefel uchel o gyngor a chefnogaeth gan safonwyr a thiwtorïaïd cyswllt, a gan staff eraill y Brifysgol sy'n gwneud ymweliadau.

2.11.19 Yn y mwyafrif o achosion, mae staff partner yn gosod cwestiynau arholiad a briff asesiadau a chaiff y rhain eu cymeradwyo gan y safonwr neu'r tiwtor cyswllt a'r arholwr allanol cyn eu rhoi i fyfyrwyr. Y staff partner sy'n gwneud y gwaith marcio ac ail farcio ac mae'r arholwr allanol yn safoni samplau o'r gwaith sydd wedi'i farcio. Mae staff y Brifysgol yn cadeirio a chefnogi byrddau arholi; cânt eu cynnal yn y Brifysgol neu yn y sefydliad partner, gyda chysylltiadau fideo at bartneriaid lle bo raid. Cynhelir y byrddau'n gywir yn unol â gofynion y Brifysgol, ac mae arholwyr allanol yn gyffredinol fodlon gyda'r broses asesu. Lle pennir anghenion datblygiad y staff mewn perthynas ag asesiad, cymerir camau gweithredu fel arfer i ymdrin â nhw. Ymdrinnir ag adborth ffurfiannol o asesiadau mewn darpariaeth gydweithredol ym mharagraff 1.3.3.

2.11.20 Penodir arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth gydweithredol gan y Brifysgol. Lle bo'n bosibl, penodir yr un arholwr allanol i raglenni unigol, ar draws y ddarpariaeth gartref a'r ddarpariaeth gydweithredol. Dywedodd staff y Brifysgol bod ysgolion yn ceisio hyrwyddo cysylltiad rhwng arholwyr allanol os nad yw hyn yn bosibl. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn benodol i raglenni'r partner unigol ac, mewn rhai achosion, i gampysau partneriaid. Cadarnhaodd staff y Brifysgol bod sgriptiau wedi eu marcio sydd ar gael i arholwyr allanol

wedi eu pennu'n glir gan y campws, gan ganiatáu i adroddiadau arholwyr allanol wahaniaethu rhwng campysau. Paratoir ymatebion i adroddiadau arholwyr allanol gan bartneriaid, a chânt eu hanfon at yr arholwyr gan y Brifysgol.

2.11.21 Mae'r Pwyllgor Darpariaeth Gydwethredol yn derbyn adroddiadau ac ymatebion gan arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth gydwethredol. Anfonir adroddiadau trosolwg at y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r Ysgolion hefyd yn paratoi crynodebau o adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni cydwethredol, i'w hystyried gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r ysgolion, gan y Bwrdd Dysgu ac Addysgu, a gan y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd. Yn gyffredinol, mae'r crynodebau hyn yn llawn ac yn werthusol, gyda chofnodion o'r camau i'w cymryd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r system hon o ddarparu adroddiadau cryno'n gofyn adrodd ar gamau gweithredu a gwblhawyd neu sy'n dal i fod ar waith o'r flwyddyn flaenorol. Efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried sut y gellid cyflwyno'r agwedd hon o ddarparu adroddiadau cryno blynyddol.

2.11.22 Canfu'r tîm adolygu bod arholwyr allanol yn derbyn ymatebion priodol i'w hadroddiadau ac yn gyffredinol fodlon bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ymdrin ag unrhyw faterion a bennwyd. Daw i'r casglid bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arholwyr allanol mewn darpariaeth gydwethredol.

2.11.23 Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu bod gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cynrychiolaeth ac adborth yn gweithio'n effeithiol mewn darpariaeth gydwethredol, gan gynnwys cyfarfodydd staff-myfyrwyr, cynrychiolaeth ar bwyllgorau rhaglen, a gwerthusiad myfyrwyr o fodiwlau a rhaglenni (gwelwch hefyd baragraff 2.3.2). Roedd y camau a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr yn cynnwys estyniad i oriau agor y llyfrgell, addasu dyddiadau cyflwyno aseiniadau er mwyn ystyried llwyth gwaith y myfyrwyr, a gwell mynediad at adnoddau ar-lein.

2.11.24 Mae'r Brifysgol yn darparu ystod o gyfleusterau datblygiad staff i bartneriaid cydwethredol, gan gynnwys gweithgareddau ymsefydlu ar gyfer datblygiad staff yn dilyn cymeradwyo rhaglenni, datblygiad staff parhaus mewn partneriaid drwy safonwyr a thiwtoriadaid cyswllt, a'r digwyddiad hyfforddi blynyddol i bartneriaid a gynhelir yn y Brifysgol (gwelwch hefyd baragraff 2.1.4). Mae'n amlwg bod staff partner yn gwerthfawrogi cyfleoedd datblygiad a ddarperir gan y Brifysgol.

2.11.25 Mae myfyrwyr mewn darpariaeth gydwethredol yn cadarnhau eu bod yn derbyn ystod o wybodaeth ddefnyddiol am eu rhaglenni a'u cyfleoedd dysgu. Rhoddir llawer o'r wybodaeth hon wrth ymsefydlu, yn Llawlyfr Myfyrwyr generig y Brifysgol, ac mewn llawlyfrau rhaglen a gynhyrchir gan bartneriaid yn unol â thempled llawlyfr rhaglen y Brifysgol. Mae'r llawlyfrau yma'n gyffredinol gywir, er bod rhai'n cynnwys gwybodaeth ddryslud am gwynion gan fyfyrwyr (gwelwch hefyd baragraffau 2.6.4 i 2.6.5). Mae'r Brifysgol wedi datblygu 'Canllaw i Fyfyrrwyr am Astudio ar Raglen Prifysgol Fetropolitan Caerdydd mewn Sefydliad Partner'. Er na soniodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu am y canllaw'n benodol, roeddent yn amlwg yn deall eu perthynas gyda'r Brifysgol.

2.11.26 Mae'r Brifysgol yn cyflwyno tystysgrifau a thrawsgrifiadau ar gyfer dyfarniadau. Mae trawsgrifiadau'n nodi enw'r partner darparu a lleoliad yr astudio. Mae tystysgrifau'n nodi bod lleoliad yr astudio ac iaith yr addysgu a'r asesu'n cael eu nodi yn y trawsgrifiad academaidd. Mae'r trawsgrifiadau i fyfyrwyr sydd wedi symud ymlaen o raglenni wedi'u trosglwyddo i lefel 6 dyfarniad y Brifysgol yn cofnodi credydau wrth ddod i mewn ond nid lleoliad yr astudiaeth sy'n berthnasol i'r credydau yma. Efallai y bydd y Brifysgol eisiau ystyried cynnwys trawsgrifiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn popeth sy'n angenrheidiol i gael dealltwriaeth lawn o gyflawniad y myfyriwr.

2.11.27 Mae gan y Brifysgol ganllawiau a gweithdrefnau clir ac eang ar gyfer paratoi a chymeradwyo deunyddiau hysbysebu a chyhoedduswyd y partneriaid cydwethredol, ac i sicrhau bod logo'r Brifysgol yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Mae'n rhaid i bartneriaid

cydweithredol gyflwyno deunyddiau marchnata i'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol i'w cymeradwyo a'u llofnodi cyn eu cyhoeddi er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Hefyd, mae'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn gwirio gwefannau partneriaid yn rheolaidd. Mae'r myfyrwyr yn cadarnhau bod yr wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt cyn gwneud cais am eu rhaglenni wedi bod yn gywir.

Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu

2.12 Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael drwy ddarpariaeth dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu wedi'i reoli'n effeithiol. Mae ansawdd y cyfleoedd hyn wedi ei sicrhau drwy drefnau arferol y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, eu hadolygu'n flynyddol a'u hadolygu'n gyfnodol. Rhoddir mesurau ychwanegol yn eu lle i sicrhau bod systemau dysgu hyblyg a dysgu gyda chymorth technoleg yn effeithiol a dibynadwy, yn arbennig pan fyddent yn cynnwys cysylltiadau gyda sefydliadau partner, ac y gall myfyrwyr ddefnyddio adnoddau a mecanweithiau cefnogi priodol y rhaglenni.

2.12.1 Mae mwyafrif y rhaglenni sy'n cynnwys dysgu hyblyg a dosranedig a dysgu gyda chymorth technoleg yn cyfuno presenoldeb yn y Brifysgol gydag e-ddysgu. Mae rhaglenni'r Brifysgol yn defnyddio'r dulliau dysgu cyfunol hyn fwy a mwy. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n rheoli ac yn cefnogi datblygiad y ddarpariaeth ddysgu gyfunol, a'r defnydd o systemau dysgu gyda chymorth technoleg, drwy Ddatblygwyr Dysgu sy'n arbenigwyr. Mae ei gwefan yn adnodd gwerthfawr sy'n dangos deunyddiau dysgu wedi eu gwella gyda chyfryngau, astudiaethau achos o arloesiad a gweithgareddau datblygu i staff.

2.12.2 Yn dilyn adolygiad diweddar, mae'r Brifysgol yn newid ei rhith-amgylchedd dysgu i hybu gwell cyfatebiaeth gyda sefydliadau partner ac i ymestyn galluoedd e-ddysgu hyblyg. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n darparu cefnogaeth ar-lein a gweithdai i staff a myfyrwyr sy'n gwneud y trosglwyddiad yma, gan gynnwys canllawiau ar gyfer datblygu safleoedd modiwl a thempled cyson ar gyfer gwybodaeth am fodiwlau.

Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle

2.13 Mae rhaglenni'r Brifysgol yn darparu'n gynyddol gyfleoedd i ddysgu yn y gweithle a/neu ddysgu seiliedig ar waith. O gymorth gyda hyn mae amcan corfforaethol y Brifysgol i alluogi'r holl fyfyrwyr i gael cyfle i ymgysylltu mewn dysgu seiliedig ar waith neu ddysgu yn y gweithle. Mae'r Strategaeth Cyflogadwyedd yn pwysleisio datblygiad dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle, wedi ei alinio â gofynion asiantaethau cynghori allanol a chyrrff rheoleiddio lle bo'n briodol, a rhoddir canllawiau polisi yn y Llawlyfr Academaidd. Mae Cydlynnydd Academaidd Ansawdd a Safonau a benodwyd yn ddiweddar yn arwain y datblygiadau mewn ysgolion, ac mae gan bob ysgol aelod o staff sy'n gyfrifol am gydlynu gweithgareddau dysgu yn y gweithle. Mae Grŵp Strategaeth Cyflogadwyedd newydd ei ffurfio'n goruchwylio'r gweithgareddau hyn i gyd.

2.13.1 Mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle ynghyd ag amrediad o bartneriaid o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae gwybodaeth am y cyfleoedd hyn ar gael i'r myfyrwyr yn eu llawlyfrau rhaglen. Mae gofyn i asiantaethau a sefydliadau partner gyflawni disgwyliadau'r Brifysgol wrth baratoi, darparu, cefnogi a monitro profiad dysgu'r myfyrwyr yn y gweithle. Mae'r myfyrwyr yn rhoi adborth am eu profiadau dysgu yn y gweithle drwy bwyllgorau rhaglen, drwy bwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr a thrwy werthusiadau modiwl. Mae myfyrwyr yn gyffredinol fodlon gyda'u disgwyliadau a'u profiadau ynghylch dysgu yn y gweithle.

2.13.2 Mae tiwtoriaid lleoliad a chydlynwyr lleoli o fewn yr ysgolion yn goruchwylio ansawdd y lleoliadau gwaith. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n darparu hyfforddiant mewn mentora a thiwtora i staff academaidd sydd â chyfrifoldeb am brofiadau dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle. Mae Porth Cyflogadwyedd ar wefan y staff yn darparu adnoddau

defnyddiol i gefnogi gwaith o fewn y rhaglenni i ddatblygu lleoliadau gwaith neu ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r Ganolfan Dysgu Seiliedig ar Waith yn hwyluso cysylltiadau gyda chyflogwyr rhanbarthol ac yn marchnata cyrsiau byr ar gyfer y rhai sydd yn y gweithle yn barod; fodd bynnag, nid yw ei rôl wedi ei esbonio'n hollol glir ar wefan y Brifysgol. Mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu Llawlyfr Dysgu yn y Gweithle corfforaethol er mwyn darparu arweiniad craidd ar ddarparu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ddysgu yn y gweithle. Yn ddiweddar, mae wedi buddsoddi mewn datblygu system wybodaeth arbenigol am reoli lleoliadau i gefnogi gwaith monitro a gwerthuso, ac i alluogi myfyrwyr i fapio datblygiad eu sgiliau cyflogadwyedd.

2.13.3 Mae gan y Gwasanaeth Datblygu Gyrfaoedd rôl sefydliadol mewn goruchwyllo'r dysgu seiliedig ar waith a phrofiad gwaith proffesiynol, ac mae'n gwneud archwiliad blynyddol o ddarpariaeth ddysgu yn y gweithle neu ddysgu seiliedig ar waith. Mae hefyd yn darparu'r gwrthrych e-ddysgu 'Eich Gyrfa' gwerthfawr sy'n cynnig adnoddau datblygiad, cefnogaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd i'r holl fyfyrwyr mewn ffordd hyblyg (gwelwch hefyd baragraffau 2.7.2 i 2.7.3).

Siarter y myfyrwyr

2.14 Datblygwyd Siarter Myfyrwyr y Brifysgol gydag Undeb y Myfyrwyr ac mae'n ymwneud â'i myfyrwyr i gyd, lle bynnag y maent yn astudio. Mae'n nodi'n glir yr hyn y gallent ei ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'r hyn a ddisgwylir gan y myfyrwyr. Mae'r Siarter yn cynnwys cyfeiriadau at weithdrefnau a gwasanaethau cymorth, ac mae gan ei fersiwn electronig ddolenni at bolisiâu a gwasanaethau ar wefan y Brifysgol. Caiff ei ddosbarthu'n eang ymysg myfyrwyr ar y campws cartref a myfyrwyr ar ddarpariaeth gydweithredol drwy wefan y Brifysgol, drwy'r Llawlyfr Myfyrwyr ac wrth ymsefydlu. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn adolygu'r Siarter yn rheolaidd.

3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu

Crynodeb

Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae'r gynulleidfa darged o'r farn bod yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas i'r pwrpas ac yn hygyrch ac mae'n bosib ymddiried ynddi. Mae rhesymau'r tîm am y casgliad yma i'w gweld isod.

3.1 Mae Llawlyfr Gwybodaeth Gyhoeddus y Brifysgol yn darparu arweiniad i staff ar ddefnydd priodol, hygyrchedd a datblygiad gwybodaeth gyhoeddus. Mae llawer o'r wybodaeth hon ar gael ar wefan sy'n wynebu'r cyhoedd ac a reolir ac a adolygir gan yr Adran Gyfathrebu a Marchnata. Mae haenau ychwanegol o graffu'n digwydd ar lefelau rhaglen, ysgol a gwasanaethau, dan arweiniad y Llawlyfr Gwybodaeth Gyhoeddus a gwe-awduron hyfforddedig sy'n gysylltiedig â phob ysgol. Mae cyfarwyddwyr rhaglen yn gwirio'r wybodaeth farchnata a gwybodaeth am raglenni ac mae penaethiaid adran a deoniaid yn craffu arni. Gan y Dirprwy i'r Is-Ganghellor mae'r cyfrifoldeb pennaf am gywirdeb gwybodaeth gyhoeddus.

3.2 Mae safonwyr neu diwtoriaid cyswllt a Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn gwirio cywirdeb yr wybodaeth a ddarperir gan gyrff a sefydliadau partner. Creffir ar hyn ymhellach gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Sicreir fod yr holl wybodaeth briodol ar gael yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg, ochr yn ochr â darparu fformatau eraill i fyfyrwyr sydd ag anabledd. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu eu bod yn fodlon â chywirdeb a phrydlondeb yr wybodaeth roeddent wedi'i derbyn gan y Brifysgol. Fodd bynnag, roedd y tîm o'r farn bod yr wybodaeth am weithdrefnau cwyno sydd mewn llawlyfrau rhaglen mewn rhai sefydliadau partner (gwelwch hefyd baragraffau 2.6.4-2.6.5) yn ddryslyd.

3.3 Gall darpar fyfyrwyr o'r DU a thramor gael gafael ar wybodaeth am raglenni, prosesau derbyn a gofynion mynediad a gwasanaethau cymorth y Brifysgol, drwy'r wefan. Mae ystod o adnoddau ar-lein a chyfryngau ar gael i roi dealltwriaeth glir o'r profiad y gall myfyrwyr ei ddisgwyl. Mae'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ar wefan y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Gyfres Wybodaeth Allweddol (KIS) a'r Gyfres Wybodaeth Ehangach (WIS) sy'n ofynnol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cymeradwyr adroddiadau'r Gyfres Wybodaeth Allweddol i'w cyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu ym mhob ysgol; cânt eu gwirio gan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu ac mae'r Uned Ansawdd a Safonau'n gwneud archwiliadau rheolaidd o'r wybodaeth. Darperir canllawiau am ddatblygiad y Cyfresi Gwybodaeth Allweddol ac Ehangach gan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, ac mae'r adran 'Astudio â Ni' ar y wefan yn rhoi dolenni uniongyrchol defnyddiol wedi eu seilio ar raglenni at wefan Unistats i wneud dadansoddiad cymharol. Unwaith mae myfyrwyr wedi derbyn lle yn y Brifysgol, mae'r Llawlyfr Myfyrwyr a Phorth Myfyrwyr yn ffynonellau gwybodaeth gwerthfawr am bolisiau, gweithdrefnau a rheoliadau, yn ogystal ag arweiniad ar les bugeiliol ac ariannol a gweithgareddau allgwricwlaidd sydd ar gael i fyfyrwyr yn y Brifysgol. Nododd cyflwyniad y myfyrwyr bwysigrwydd sicrhau bod manylion y rheoliadau a phrosesau yn y ffynonellau gwybodaeth yma wedi eu diweddarau (gwelwch hefyd baragraff 2.6.5).

3.4 Rhennir adroddiadau arholwyr allanol yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr myfyrwyr, drwy bwyllgorau rhaglen ac adolygiadau rhaglenni blynyddol, ar draws y Brifysgol ac o fewn ei sefydliadau partner.

4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU. Mae rhesymau'r tîm am y feiriadaeth yma i'w gweld isod.

4.1 Mae agwedd y Brifysgol tuag at welliant yn canolbwyntio ar welliant parhaus mewn dysgu ac addysgu, a chaiff ei hyrwyddo drwy ystod o strategaethau corfforaethol. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn pennu meysydd i'w gwella drwy'r broses flynyddol o adolygu rhaglenni a chynllunio camau gweithredu. Mae'r Dirprwy Ddeoniaid / Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn pennu meysydd i'w gwella drwy'r broses flynyddol o adolygu rhaglenni a chynllunio camau gweithredu, ac mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n ymateb i'r anghenion hyn lle bo'n briodol. Mae gan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'r cyfrifoldeb strategol hefyd am ansawdd a hyrwyddiad y gweithgareddau gwella dysgu yn y Brifysgol, gan gynnwys darparu datblygiad staff priodol, cefnogi dysgu gyda chymorth technoleg, a sicrhau ymatebolrwydd i adborth gan fyfyrwyr. Mae'r Uned yn rhoi adroddiad am gynnydd ar lefel strategol i'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu a Bwrdd yr Is-Ganghellor; ac mae'r Brifysgol yn cyflwyno gwerthusiad o amcanion ei Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu i CCAUC drwy ei adroddiad monitro blynyddol. Mae'r Brifysgol hefyd yn ceisio croesawu ystod o feincnodau allanol o fewn ei gweithgareddau gwella strategol, gan gynnwys strategaeth ddeng mlynedd CCAUC ar gyfer gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg (2007-2017) a'i Rhaglen Meithrin Gallu dilynol, a'r rhaglen 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' a arweinir gan yr AAU.

4.2 Hyrwyddir lledaenu arferion da mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, a chynllunio ac adolygu'r cwricwlwm drwy wefan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a chânt eu cefnogi drwy sioeau teithiol, gweminarau, gweithdai, posteri a chyhoeddiadau. Mae gwefan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n adnodd cyfoethog ar gyfer lledaenu a gwella mentrau dysgu ac addysgu ar draws y Brifysgol (gwelwch hefyd baragraff 2.2.1). Mae defnyddio 'bwletinâu newyddion' mewn rhai ysgolion yn ategu gwybodaeth yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, ac anogir staff academiaidd i ymgysylltu â mentrau cenedlaethol sy'n cydnabod rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu. Mae rhaglen Tystysgrif Uwchraddedig

Addysgu mewn Addysg Uwch y Brifysgol yn annog staff academaidd i ddatblygu mentrau gwelliant, ac mae'r dudalen we Matrics cysylltiedig yn cynnwys astudiaethau achos arloesol a llawn gwybodaeth.

4.3 Mae'r Brifysgol yn dathlu rhagoriaeth mewn addysgu drwy Gymrodoriaeth Addysgu a Arweinir gan Fyfyrwyr yn y Brifysgol ac yn un o'i phartneriaethau yn y DU. Mae'r cyfleoedd i bartneriaid cydweithredol weithio'n agos yng ngweithgareddau gwella'r Brifysgol yn cynnwys y digwyddiad hyfforddi blynyddol i bartneriaid, sydd wedi denu cynrychiolwyr o bartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol. Yn aml iawn, hysbysir yr agenda ar gyfer y digwyddiad hwn gan adborth gan fyfyrwyr, safonwyr a thiwtoriaid cyswllt, ac arholwyr allanol, yn ogystal â'r arolwg partneriaid blynyddol.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau allweddol yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan y mwyafrif o dermau ddiffiniadau 'gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru*, sydd ar gael ar ein gwefan ar:

www.qaa.ac.uk/cy/publications/pages/information-and-guidance-details.aspx?pubid=123.

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuringstandardsandquality/pages/default.aspx.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/pages/glossarycy.aspx.

canlyniad dysgu Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Y Cod Ansawdd Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o bwyntiau cyfeirio i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r Disgwyliadau y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

credyd(au) Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu rhaglenni astudio addysg uwch, wedi'i fynegi fel 'nifer o gredydau' ar lefel benodol.

cyfleoedd dysgu Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys **rhaglenni astudio** a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios) a datblygiad staff.

datganiad meincnod pwnc Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlynid a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

diffiniad gweithredol Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adroddiadau.

ehangu cyfranogaeth Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

fframwaith cymwysterau addysg uwch Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban*.

fframwaith Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd y **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

gwelliant Cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y **cyfleoedd dysgu**. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA.

gwybodaeth gyhoeddus Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

manylebau rhaglen Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r **rhaglenni astudio**, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

nodwedd o arfer da Agwedd gadarnhaol o'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ansawdd a safonau, y gellid eu gweld fel esiamplau rhagorol i bobl eraill.

rhaglen (astudio) Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

safon academiaidd trothwy Y safon ofynnol y dylai myfyriwr ei chyrraedd er mwyn ennill cymhwyster neu ddyfarniad penodol, fel y mae wedi'i disgrifio yn y **datganiadau meincnod pwnc** a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Mae safonau trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y mae angen i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn ennill unrhyw ddosbarth penodol o ddyfarniad, er enghraifft gradd baglor o'r radd flaenaf. Gweler hefyd **safon academiaidd**.

safonau academiaidd Y safonau a osodir gan sefydliadau ac a gynhelir ganddynt ar gyfer eu cyrsiau a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

QAA900 - R3415 - Aws 14

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2014
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB

Ffôn 01452 557 000
Ebst enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786